

Rheoliadau ar Gyfer Gradd Meistr Athroniaeth:

- [Rheoliadau ar gyfer Gradd Athro mewn Athroniaeth](#)
- [Rheoliadau ar gyfer Gradd Doethur mewn Athroniaeth \(cymeradwywyd cyn Medi 2023\)](#)
- [Rheoliadau ar gyfer Gradd Doethur mewn Athroniaeth \(Cymeradwywyd i fyfyrwyr a dderbynnir o fis Medi 2023\)](#)
- [Rheoliadau ar gyfer Dyfarnu Gradd PhD \(drwy Weithiau Cyhoeddedig\)](#)
- [Rheoliadau ar gyfer Graddau Doethurol drwy Arholiad a Thraethawd Ymchwil neu Bortffolio](#)
- [Reoliadau ar gyfer Doethur Addysg Cenedlaethol \(EdD\) Cymru](#)
- [Rheoliadau ar gyfer Cyflwyno Traethodau Ymchwil a'u Harholi](#)
- [Canllawiau ar gyfer Cynnal Arholiadau Viva Voce trwy Ddull Electronig \(Viva Voce Ar-lein\)](#)

Rheoliadau ar gyfer Gradd Athro mewn Athroniaeth (MPhil)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rheoli dyfarnu gradd Athro mewn Athroniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth, sef y Brifysgol o hyn ymlaen. Maent yr un mor berthnasol hefyd i'r radd LLM drwy Ymchwil.

Gall gradd Athro mewn Athroniaeth gael ei dyfarnu gan y Brifysgol i gydnabod y llwyddwyd i gwblhau cwrs astudio ac ymchwilio pellach y bernir bod ei ganlyniadau yn werthusiad a dadansoddiad beirniadol o gorff o wybodaeth ac/neu yn gyfraniad gwreiddiol at wybodaeth. Wedi iddynt gwblhau MPhil, bydd graddedigion wedi cyrraedd o leiaf Lefel M, fel y'i diffinnir gan Fframwaith yr ASA ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Dulliau Astudio

1. Gall ymgeisydd astudio ar gyfer y radd drwy gyfrwng un o'r dulliau canlynol:

- A. drwy wneud ymchwil lawn-amser yn y Brifysgol;
- B. drwy wneud ymchwil lawn-amser mewn man cyflogaeth allanol;
- C. drwy wneud ymchwil ran-amser yn y Brifysgol;
- D. drwy wneud ymchwil ran-amser yn allanol;
- E. drwy wneud ymchwil ran-amser yn y Brifysgol fel aelod llawn-amser neu ran-amser o'r staff.

2. Mae'n bosibl, mewn achosion addas, i drosglwyddo o un dull o'r rheoliadau i un arall, e.e. o lawn-amser (Dull A) i ran-amser (Dull C) ac fel arall. Mewn achosion o'r fath, bydd y Brifysgol yn pennu isafswm cyfnod astudio diwygiedig ac yn gosod y dyddiad cynharaf y caniateir cyflwyno'r traethawd ymchwil.

3. Yn achos aelodau o staff rhan-amser, cyfyngir ymgeisyddiaeth i aelodau o staff dan gontract a chanddynt radd, neu gymhwyster cyfatebol, sydd â chontract rheolaidd o gyflogaeth am gyflog sy'n cyfateb i o leiaf draean o gyflog aelod llawn-amser yn y categorïau staff priodol.

Cymhwysra

4. Rhaid i ymgeisydd am radd MPhil feddu ar un o'r cymwysterau canlynol cyn dechrau ei ymchwil neu ei hymchwil:

- (a) gradd gychwynnol o Brifysgol Aberystwyth;
- (b) gradd gychwynnol o Brifysgol arall a gymeradwywyd at y diben hwn;
- (c) cymhwyster nad yw'n radd y mae'r Brifysgol wedi barnu ei fod yn cyfateb i radd.

Rhaid i ddarpar ymgeisydd a chanddo/a chanddi eisoes radd ddoethurol allu dangos bod y cynllun MPhil mewn maes ymchwil gwahanol i'r un y dyfarnwyd y PhD (neu radd ddoethurol arall) amdano.

5. Beth bynnag fo cymwysterau ymgeisydd, rhaid i'r Brifysgol fodloni ei hun fod ymgeisydd o'r safon academaidd sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r cynllun ymchwil arfaethedig.

6. Mae'n ofynnol i'r holl ymgeiswyr fatricwleiddio gyda'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn darparu rhestr o safonau a gymeradwywyd a fydd yn caniatáu mynediad i ymgeisyddiaeth am un o raddau uwch y Brifysgol. Cynhwysir y rhestr hon yn y "Rheoliadau ar gyfer Cymeradwyo Cymwysterau a/neu Brofiad Perthnasol ar gyfer Derbyn i Raddau, Diplomâu a Thystysgrifau Uwch Prifysgol Aberystwyth".

Yn achos ymgeisydd nad oes ganddo/ganddi gymhwyster mynediad cydnabyddedig, rhaid i'r Adran dan sylw wneud argymhelliad arbennig ar gyfer ei d(d)erbyn i'r Swyddfa Derbyn

Uwchraddedigion a rhaid i'r gymeradwyaeth gael ei chadarnhau cyn bod cynllun astudio arfaethedig yr ymgeisydd yn cychwyn.

Cyfnodau Cofrestru

7. Rhaid i'r ymgeisydd ymrestru naill ai fel myfyriwr llawn-amser neu ran-amser yn y Brifysgol, talu'r ffi briodol a bennir a dilyn y cynllun am yr isafswm cyfnod a ddiffinnir isod:

Dulliau A a B:

Isafswm cyfnod: blwyddyn

Dulliau C, D ac E:

Isafswm cyfnod: dwy flynedd

Serch yr uchod, gall yr Adran ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd wneud ymchwil am gyfnod hwy na'r cyfnodau isafswm hyn.

8. Er mwyn caniatáu i'r arholiad gael ei gwblhau, gall ymgeisydd blwyddyn gyflwyno traethawd ymchwil, ar y cynharaf, bythefnos cyn i'r cyfnod astudio ddod i ben. Gall ymgeisydd dwy flynedd gyflwyno traethawd ymchwil, ar y cynharaf, chwe mis cyn i'r cyfnod astudio ddod i ben, h.y. flwyddyn a hanner ar ôl y dyddiad cofrestru cychwynol. Bydd ffioedd dysgu, fodd bynnag, yn ddyledus am yr holl gyfnod cofrestru.

Lle mae gofyn i'r ymgeisydd gyflawni cyfnod ychwanegol o ymchwil (fel y'i disgrifir o dan baragraff 7 uchod), estynnir dyddiad cyflwyno cynharaf yr ymgeisydd yn ôl cyfnod o amser sy'n gyfartal o ran hyd i hyd y cyfnod astudio ychwanegol.

Terfynau Amser

9. Daw ymgeisyddiaeth i ben os na chyflwynir traethawd ymchwil, yn y ffurf a'r modd a bennir yn y rheoliadau, erbyn y terfynau amser canlynol:

(a) Dulliau A a B – dwy blynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd fel myfyriwr ymchwil, fel y'i pennir ym mharagraff 6 uchod.

(b) Dulliau C, D ac E – pedair blynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd fel myfyriwr ymchwil, fel y'i pennir ym mharagraff 6 uchod.

Gall y terfynau amser uchod gael eu hymestyn gan y Brifysgol, ond mewn achosion eithriadol yn unig ac yn unol â meini prawf a bennir yn y Rheoliadau ar gyfer Cyflwyno Traethodau Ymchwil am Raddau Ymchwil a'u Harholi. Rhaid i gais rhesymedig, wedi ei ategu gan dystiolaeth annibynnol briodol, gael ei gyflwyno gan adran yr ymgeisydd i'r Brifysgol ei ystyried.

D.S. I fyfyrwyr a dderbyniwyd o fis Medi 2018, mae'r Cyfyngiadau Amser canlynol ar gyfer Cwblhau, gan gynnwys unrhyw gyfnodau o dynnu'n ôl dros dro ac estyniadau a gymeradwywyd gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion, yn berthnasol:

O'r dyddiad cofrestru cychwynol tan eich bod yn cyflwyno'r traethawd ymchwil i'w arholi am y tro cyntaf:

MPhil/LLM Ymchwil amser-llawn: pedair blynedd

MPhil/LLM Ymchwil rhan-amser: chwe blynedd

Gellir cael estyniadau i'r cyfyngiadau hyn gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) o dan yr amod:

1. Bod tystiolaeth o amgylchiadau arbennig yn cael ei chyflwyno
2. Bod adran y myfyriwr yn cadarnhau bod y prosiect ymchwil yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddichonadwy a bod y myfyriwr yn gallu cwblhau'r prosiect o fewn cyfnod yr estyniad.

Goruchwylio

10. Rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu goruchwylio, yn rheolaidd ac yn barhaus, yn unol â'i gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer goruchwylio uwchraddedigion.

11. Ar gyfer pob ymgeisyddiaeth, rhaid i'r Brifysgol gymeradwyo tîm o oruchwylwyr yn cynnwys o leiaf un prif oruchwylydd ac ail oruchwylydd, a enwebir gan Adran yr ymgeisydd.

- Fel arfer bydd y prif oruchwylydd yn aelod llawn-amser o staff academiaidd y Brifysgol;
- Fel arfer, bydd yr ail oruchwylydd yn aelod llawn-amser o staff academiaidd y Brifysgol neu sefydliad neu gorff cydweithrediadol.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer goruchwylio uwchraddedigion ar gael i fyfyrwyr a goruchwylwyr trwy gyfrwng y Codau Ymarfer a'r Llawlyfr Goruchwylwyr.

Hyd y Traethawd Ymchwil, a'i Gyflwyno

12. Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ei (h)ymchwil drwy gyflwyno traethawd ymchwil (fel arfer heb fod yn hwy na 60,000 o eiriau o ran hyd, heb gynnwys cyfeiriadau ac atodiadau) sy'n ymgorffori canlyniadau'r ymchwil, o fewn y terfynau amser penodedig.

13. Bydd angen Bwrdd Arholi wedi ei gyfansoddi'n briodol i gynnal arholiad llafar ar gyfer yr ymgeisydd MPhil sy'n cyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi. Er hynny, fe allai'r gofyniad hwn gael ei hepgor ar ddisgresiwn y Bwrdd Arholi, wrth arholi traethawd ymchwil sydd wedi ei ailgyflwyno a bod yr arholwyr yn argymhell pasio'n glir heb newidiadau, neu gyda chywiriadau neu newidiadau mân iawn yn unig. Dan amgylchiadau eraill eithriadol, gellir hepgor arholiad llafar ar gyfer ailgyflwyno gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Arholi a Phennaeth Ysgol y Graddedigion.

14. Rhaid i ymgeiswyr lofnodi datganiad yn ardystio na dderbyniwyd y gwaith a gyflwynir yn ei hanfod am unrhyw radd neu ddyfarniad, ac nad yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd neu ddyfarniad arall. Rhaid cynnwys y datganiad, wedi ei lofnodi, ym mhob copi o'r gweithiau a gyflwynir i'w harholi.

15. Rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod ffurf cyflwyno ac arholi'r traethawd ymchwil yn cydymffurfio â Rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer Cyflwyno Traethodau Ymchwil a'u Harholi.

Cynlluniau Gradd yn y Celfyddydau Creadigol

16. Yn achos ymgeiswyr sy'n dilyn cynlluniau gradd ymchwil cymeradwyedig sy'n syrthio o fewn maes pwnc Celfyddydau Creadigol a Pherfformiadol y Brifysgol, gall y traethawd ymchwil fod ar un neu ragor o'r ffurfiau canlynol: arteffact, sgôr, testun, portffolio o weithiau gwreiddiol, perfformiad neu arddangosfa. Rhaid cyflwyno, ar y cyd â'r gwaith, sylwadaeth sy'n ei osod yn ei gyd-destun academiaidd, ynghyd ag unrhyw eitemau eraill a all fod yn ofynnol (e.e. catalog neu recordiad sain neu weledol).

Ym mhob achos, rhaid i'r hyn a gyflwynir a'r sylwadaeth ysgrifenedig fod wedi'u rhwymo, a'r eitemau eraill sy'n ofynnol (e.e. tâp neu gyfryngau eraill) wedi'u hamgáu mewn cynhwysydd sy'n addas i'w storio ar silff llyfrgell ac yn dwyn yr un wybodaeth ar y meingefn ag sy'n ofynnol ar feingefn traethawd hir neu draethawd ymchwil. Rhaid lleoli'r wybodaeth hon fel y bydd yn rhwydd i'w darllen ar y cynhwysydd yn y safle lle caiff ei storio.

Rheoliadau ar gyfer Gradd Doethur mewn Athroniaeth (Cymeradwywyd i fyfyrwyr a dderbynnir cyn Medi 2023)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rheoli dyfarnu gradd Doethur mewn Athroniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth, sef y Brifysgol o hyn allan.

Gall y Brifysgol ddyfarnu gradd Doethur mewn Athroniaeth i gydnabod cwblhau'n llwyddiannus gynllun o astudio pellach ac ymchwil y bernir bod ei ganlyniadau yn gyfraniad gwreiddiol i ddysg ac yn dystiolaeth o astudio systematig a'r gallu i gysylltu canlyniadau'r cyfryw astudio â'r corff cyffredinol o wybodaeth yn y pwnc.

Bydd y cyfeiriadau isod at y traethawd ymchwil yn cwmpasu cyflwyniadau ar ffurfiau amgen (gweler rheoliadau 18–28 isod) a chyflwyniadau sy'n seiliedig ar ymarfer yn y celfyddydau creadigol (gweler rheoliad 17).

Wrth farnu teilyngdod traethawd ymchwil a gyflwynir mewn ymgeisyddiaeth am radd PhD, bydd yr arholwyr yn cadw mewn cof safon ac ystod y gwaith y mae'n rhesymol disgwyl i fyfyrwr galluog a dygn ei gyflwyno ar ôl cyfnod o ddwy neu dair blynedd (fel y bo'n briodol) o astudio llawn-amser, neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser.

Ar ôl cwblhau Gradd Doethur, bydd graddedigion wedi cyflawni Lefel D, fel y'i diffinnir gan Fframwaith yr ASA ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ni ellir cyflwyno gradd Doethur mewn Athroniaeth honoris causa.

Dulliau Astudio

1. Gall ymgeisydd astudio ar gyfer y radd drwy gyfrwng un o'r dulliau canlynol:

A drwy wneud ymchwil lawn-amser yn y Brifysgol;

B drwy wneud ymchwil lawn-amser mewn man cyflogaeth allanol;

C drwy wneud ymchwil ran-amser yn y Brifysgol;

D drwy wneud ymchwil ran-amser yn allanol;

E drwy wneud ymchwil ran-amser yn y Brifysgol fel aelod llawn-amser neu ran-amser o'r staff.

Dylai myfyrwyr sy'n gwneud cais o dan adran B fod yn gweithio mewn canolfan ymchwil allanol neu sefydliad tebyg sydd â'r staff a'r adnoddau i gynnal a goruchwylio'r prosiect ymchwil ond nad oes ganddynt bwerau dyfarnu graddau. Mae'n rhaid i ymgweiswyr ddarparu:

- **datganiad o gefnogaeth gan y cyflogwr yn cadarnhau y byddant yn canitáu i'r myfyriwr weithio'n llawn-amser ar y prosiect ymchwil ac y byddant yn darparu'r adnoddau angenrheidiol.**
- **cadarnhad o'r trefniadau goruchwylio gan gynnwys CV y goruchwyliwr lleol.**
- **cadarnhad fod gan yr ymgeisydd, neu y gallai gael, y sgiliau ymchwil angenrheidiol heb fynychu hyfforddiant ymchwil PA.**
- **cytundeb ar unrhyw hyfforddiant ymchwil PA fydd ei angen.**

2. Mae'n bosibl, mewn achosion addas, i drosglwyddo o un dull o'r rheoliadau i un arall, e.e. o lawn-amser (Dull A) i ran-amser (Dull C) ac fel arall. Mewn achosion o'r fath, bydd y Brifysgol yn

pennu isafswm cyfnod astudio diwygiedig ac yn gosod y dyddiad cynharaf ar gyfer cyflwyno'r traethawd ymchwil.

3. Yn achos aelodau o staff rhan-amser, cyfyngir ymgeisyddiaeth i aelodau o staff dan gcontract a chanddynt radd, neu gymhwyster cyfatebol, sydd â chontract rheolaidd o gyflogaeth am gyflog sy'n cyfateb i o leiaf draean o gyflog aelod llawn-amser yn y categorïau staff priodol.

Cymhwysterau

4. Rhaid i ymgeisydd am radd PhD feddu ar un o'r cymwysterau canlynol cyn dechrau ar ei ymchwil neu ei hymchwil:

- (a) gradd gychwynnol o Brifysgol Aberystwyth;
- (b) gradd gychwynnol o Brifysgol arall a gymeradwywyd at y diben hwn;
- (c) cymhwyster nad yw'n radd y mae'r Brifysgol wedi barnu ei fod yn cyfateb i raddio.

Rhaid i ddarpar ymgeisydd a chanddo/a chanddi eisoes radd ddoethurol allu dangos bod y cynllun PhD mewn maes ymchwil gwahanol i'r un y dyfarnwyd y PhD (neu radd ddoethurol arall) amdano.

5. Beth bynnag fo cymwysterau ymgeisydd, rhaid i'r Brifysgol fodloni ei hun bod ymgeisydd o'r safon academiaidd sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r cynllun ymchwil arfaethedig.

6. Mae'n ofynnol i'r holl ymgeiswyr fatricwleiddio gyda'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn darparu rhestr o safonau a gymeradwywyd a fydd yn caniatáu mynediad i ymgeisyddiaeth am un o raddau uwch y Brifysgol. Cynhwysir y rhestr hon yn y "Rheoliadau ar gyfer Cymeradwyo Cymwysterau a/neu Brofiad Perthnasol ar gyfer Derbyn i Raddau, Diplomâu a Thystysgrifau Uwch Prifysgol Aberystwyth".

Yn achos ymgeisydd nad oes ganddo/ganddi gymhwyster mynediad cydnabyddedig, rhaid i'r Adran dan sylw wneud argymhelliad arbennig ar gyfer ei d(d)erbyn i'r Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion a rhaid i'r gymeradwyaeth gael ei chadarnhau cyn bod cynllun astudio arfaethedig yr ymgeisydd yn cychwyn.

Cyfnodau Cofrestru a Threfniadau Prawf

7. Rhaid i'r ymgeisydd ymrestru yn y Brifysgol, talu'r ffi briodol a bennir a dilyn y cynllun ymchwil am yr isafswm cyfnod a ddiffinnir isod:

Dulliau A a B:

Isafswm cyfnod: tair blynedd, y gyntaf ohonynt yn cael ei hystyried yn flwyddyn brawf

Dulliau C a D:

Isafswm cyfnod: pum mlynedd, y ddwy flynedd gyntaf ohonynt yn cael eu hystyried yn flynyddoedd prawf

Dull E:

Isafswm cyfnod: tair blynedd, y gyntaf ohonynt yn cael ei hystyried yn flwyddyn brawf

Serch yr uchod, gall yr Adran ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd wneud ymchwil am gyfnod hwy na'r cyfnodau isafswm hyn.

8. Er mwyn caniatáu i'r arholiad gael ei gwblhau, caniateir i ymgeisydd gyflwyno traethawd ymchwil chwe mis cyn i'r cynllun astudio a gymeradwywyd ddod i ben. Er hynny, bydd ffioedd dysgu yn daladwy am y cyfnod cofrestru llawn. Pan fydd cyfnod ychwanegol o ymchwil yn ofynnol gan yr ymgeisydd (fel y disgrifir dan baragraff 7 uchod) bydd dyddiad cyflwyno cynharaf yr ymgeisydd yn cael ei ymestyn gan gyfnod o amser sy'n gyfartal o ran hyd â hyd y cyfnod astudio ychwanegol.

9. Yn ystod y flwyddyn/cyfnod prawf, disgwylir i'r ymgeisydd ddangos ei (g)allu i fwrw ymlaen ag ymchwil bellach.

10. Serch paragraffau 6 ac 8 uchod, gall ymgeisydd gael ei (h)eithrio rhag y flwyddyn/cyfnod prawf os ydyw ef/hi:

(a) yn meddu ar radd Meistr uwchraddedig o Brifysgol a gymeradwywyd, a honno wedi ei hennill drwy ymchwil neu uwch-astudiaethau sydd ym marn yr adran/Athrofa yn gefndir academiaidd digonol i ganiatáu i'r ymchwil arfaethedig gael ei chwblhau o fewn dwy flynedd.

(b) wedi cwblhau o leiaf flwyddyn yn llawn-amser neu ddwy flynedd yn rhan-amser o waith uwchraddedig o dan oruchwyliaeth yn yr un ddisgyblaeth academiaidd â'r cynllun ymchwil PhD arfaethedig er boddhad y Brifysgol ar argymhelliad yr adran/Athrofa briodol.

(c) wedi cyflwyno gwaith ymchwil uwchraddedig o safon sy'n cyfateb yn fras i safon gradd Meistr ac wedi ei gymeradwyo gan y Brifysgol ar argymhelliad yr Adran/Athrofa briodol.

(d) wedi cael o leiaf flwyddyn o brofiad perthnasol ers graddio, a chymeradwyaeth o'r fath i'w rhoi gan y Brifysgol ar argymhelliad yr Adran/Athrofa briodol.

Rhestrir y Prifysgolion hynny y mae eu graddau Meistr wedi'u cymeradwyo at ddibenion eithrio o'r cyfnod prawf yn 'Rheoliadau ar gyfer Cymeradwyo Cymwysterau a/neu Brofiad Perthnasol ar gyfer Derbyn i Raddau, Diplomâu a Thystysgrifau Uwch Prifysgol Aberystwyth'.

Ni ddyfernir unrhyw eithriadau eraill.

Terfynau Amser

11. Daw ymgeisyddiaeth i ben os na chyflwynir traethawd ymchwil, yn y ffurf a'r modd a bennwyd, erbyn y terfyn amser a restrir isod:

Dulliau A a B:

Yn achos ymgeisyddiaethau tair blynedd (yr ystyrir y flwyddyn gyntaf ohonynt yn flwyddyn brawf), pedair blynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd.

Yn achos ymgeisyddiaethau dwy flynedd (lle mae'r ymgeisydd wedi ei eithrio rhag y flwyddyn brawf), tair blynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd.

Dulliau C a D:

Yn achos ymgeisyddiaethau pum mlynedd (yr ystyrir y ddwy flynedd gyntaf ohonynt yn gyfnod prawf), saith mlynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd.

Yn achos ymgeisyddiaethau tair blynedd (lle mae'r ymgeisydd wedi ei eithrio rhag y cyfnod prawf), pum mlynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd.

Dull E:

Ym mhob achos, saith mlynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd.

Gall y terfynau amser uchod gael eu hymestyn gan y Brifysgol, ond dim ond mewn achosion eithriadol ac yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Rheoliadau ar gyfer Cyflwyno Traethodau Ymchwil am Raddau Ymchwil a'u Harholi. Rhaid i adran yr ymgeisydd gyflwyno cais rhesymedig, wedi'i gefnogi â thystiolaeth annibynnol addas, i'r Brifysgol ei ystyried.

D.S. I fyfyrwyr a dderbyniwyd o fis Medi 2018, mae'r Cyfyngiadau Amser canlynol ar gyfer Cwblhau, gan gynnwys unrhyw gyfnodau o dynnu'n ôl dros dro ac estyniadau a gymeradwywyd gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion, yn berthnasol:

O'r dyddiad cofrestru cychwynnol tan eich bod yn cyflwyno'r traethawd ymchwil i'w arholi am y tro cyntaf:

PhD/PhDFA amser-llawn: chwe blynedd

PhD/PhDFA rhan-amser: naw mlynedd

Gellir cael estyniadau i'r cyfyngiadau hyn gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) o dan yr amod:

1. Bod tystiolaeth o amgylchiadau arbennig yn cael ei chyflwyno
2. Bod adran y myfyriwr yn cadarnhau bod y prosiect ymchwil yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddichonadwy a bod y myfyriwr yn gallu cwblhau'r prosiect o fewn cyfnod yr estyniad.

Goruchwyllo

12. Rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu goruchwyllo, yn rheolaidd ac yn barhaus, yn unol â'i gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer goruchwyllo uwchraddedigion.

13. Ar gyfer pob ymgeisyddiaeth, rhaid i'r Brifysgol gymeradwyo tîm o oruchwylwyr yn cynnwys o leiaf un prif oruchwyllydd ac ail oruchwyllydd, a enwebir gan Adran yr ymgeisydd.

- Fel arfer bydd y prif oruchwyllydd yn aelod llawn-amser o staff academiaidd y Brifysgol;
- Fel arfer, bydd yr ail oruchwyllydd yn aelod llawn-amser o staff academiaidd y Brifysgol neu sefydliad neu gorff sy'n cydweithredu â hi.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer goruchwyllo uwchraddedigion ar gael i fyfyrwyr a goruchwylwyr trwy gyfrwng y Codau Ymarfer a'r Llawlyfr Goruchwylwyr.

Hyd y Traethawd Ymchwil, a'i Gyflwyno

14. Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ei (h)ymchwil drwy gyflwyno traethawd ymchwil (100,000 o eiriau o hyd ar y mwyaf, heb gynnwys atodiadau a chyfeiriadau) sy'n ymgorffori dulliau a chanlyniadau'r ymchwil. Bydd angen i Fwrdd Arholi wedi ei gyfansoddi'n briodol gynnal arholiad llafar ar gyfer ymgeisydd PhD sy'n cyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi. Er hynny, fe ellir hepgor y gofyniad hwn ar ddisgresiwn y Bwrdd Arholi, wrth arholi traethawd ymchwil sydd wedi ei ailgyflwyno pan mae'r arholwyr yn argymhell pasio'n glir heb newidiadau, neu gyda chywiriadau neu newidiadau mân iawn yn unig. Dan amgylchiadau eraill eithriadol, gellir hepgor arholiad llafar ar gyfer traethawd sydd wedi'i ailgyflwyno gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Arholi a Phennaeth Ysgol y Graddedigion.

15. Rhaid i ymgeiswyr lofnodi datganiad yn ardystio na dderbyniwyd y gwaith a gyflwynir yn ei hanfod am unrhyw radd neu ddyfarniad, ac nad yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd neu ddyfarniad arall. Rhaid cynnwys y datganiad, wedi ei lofnodi, ym mhob copi o'r gweithiau a gyflwynir i'w harholi.

16. Rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod ffurf cyflwyno ac arholi'r traethawd ymchwil yn cydymffurfio â Rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer Cyflwyno Traethodau Ymchwil a'u Harholi.

Darpariaethau arbennig mewn perthynas â Chynlluniau yn y Celfyddydau Creadigol

17. Yn achos ymgeiswyr sy'n dilyn cynlluniau gradd ymchwil cymeradwyedig sy'n syrthio o fewn maes pwnc Celfyddydau Creadigol a Pherfformiadol y Brifysgol, gall y traethawd ymchwil fod ar un neu ragor o'r ffurfiau canlynol: arteffact, sgôr, testun, portffolio o weithiau gwreiddiol, perfformiad neu arddangosfa. Dylid cyflwyno ar y cyd â'r gwaith sylwadaeth sy'n gosod y gwaith yn ei gyd-destun academaidd, ynghyd ag unrhyw eitemau eraill a all fod yn ofynnol (e.e. catalog, neu recordiad sain neu weledol).

Ym mhob achos, bydd y cyflwyniad a'r sylwadaeth ysgrifenedig wedi'u rhwymo, a bydd yr eitemau eraill sy'n ofynnol (e.e. tâp neu gyfrwng arall) wedi'u cynnwys mewn cynhwysydd sy'n addas i'w storio ar silff llyfrgell ac arno, ar y meingefn, yr un wybodaeth â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer traethodau estynedig/traethodau ymchwil. Dylid gosod y wybodaeth hon fel ei bod yn rhwydd i'w darllen ar y cynhwysydd yn y safle lle caiff ei storio.

Cyflwyno ar ffurf amgen

18. Mae'r ffurf amgen yn caniatáu i ymgeisydd doethurol ymgorffori deunydd sydd mewn fformat addas i'w gyflwyno ar gyfer ei gyhoeddi mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid. Ar wahân i'r ffaith ei fod yn cynnwys deunyddiau o'r fath, rhaid i'r traethawd ymchwil ar ffurf amgen gydymffurfio â'r un rheoliadau sy'n rheoli'r traethawd ymchwil PhD arferol. Bydd y meini prawf ar gyfer y dyfarniad a'r safon y mae'n rhaid ei chyrraedd hefyd yr un fath ag ar gyfer y PhD arferol. Rhaid i ymgeiswyr sydd eisiau cyflwyno eu gwaith ar y ffurf amgen ddilyn y canllawiau isod.

19. Gall deunyddiau a gynhwysir yn y traethawd ymchwil ar ffurf amgen gynnwys rhai sydd wedi'u cynhyrchu gan y myfyriwr yn unig ac/neu yn rhannol a gallant fod wedi'u cyhoeddi eisoes, wedi'u derbyn ar gyfer eu cyhoeddi, neu wedi eu cyflwyno i gael eu cyhoeddi mewn cyd-destunau a gymedrolir yn allanol megis cyfnodolion a thrafodion cynhadledd.

20. Dylai'r traethawd ymchwil barhau i fod yn gyfraniad gwreiddiol gan y myfyriwr i'r maes ymchwil, beth bynnag fo ei fformat. Rhaid gwneud datganiad clir ar ddechrau'r traethawd ymchwil i egluro a chyfiawnhau yn llawn natur a maint cyfraniad yr ymgeisydd ei hun a chyfraniad unrhyw gyd-awduron a chyd-weithredwyr eraill i'r cyhoeddiadau a gyflwynwyd. Rhaid i'r cyd-awduron neu'r cyd-weithredwyr lofnodi datganiadau yn cadarnhau hyn. Dylai'r deunyddiau a ymchwiliwyd ddeillio o ymchwil wreiddiol a wnaed wedi'r dyddiad pan gofrestrodd y myfyriwr gyntaf gyda'r Brifysgol.

21. Rhaid i unrhyw ymgeisydd sy'n dymuno cyflwyno ei draethawd ymchwil ar ffurf amgen gyflwyno cais ysgrifenedig, yn rhoi amlinelliad o strwythur arfaethedig y traethawd ymchwil i'w oruchwylydd a'r Pwyllgor Monitro Uwchraddedig priodol er mwyn ei gymeradwyo. Rhaid cyflwyno'r cais hwn cyn diwedd blwyddyn dau i ymgeiswyr llawn-amser a diwedd blwyddyn pedwar i ymgeiswyr rhan-amser. Dylai'r cais nodi pam mae'r traethawd ymchwil ar ffurf amgen yn fwy addas i'r prosiect ymchwil a dangos sut y bydd yr ymgeisydd yn cymryd mantais llawn o'r ffurf amgen. Os rhoddir cymeradwyaeth i gyflwyno ar ffurf amgen, rhaid i'r myfyriwr gael y ffurflen Caniatâd i gyflwyno traethawd ymchwil PhD ar ffurf amgen o'r swyddfa briodol. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno'r ffurflen gyda'u traethawd ymchwil.

22. Gall nifer y papurau a gynhwysir yn y traethawd ymchwil ar ffurf amgen amrywio yn ôl y ddisgyblaeth, ond bydd fel arfer rhwng tri a phump. Dylai'r papurau adlewyrchu maint, ansawdd

a gwreiddioldeb yr ymchwil a'r dadansoddi a ddisgwyllir gan ymgeisydd sy'n cyflwyno traethawd ymchwil doethurol arferol.

23. Rhaid i'r papurau gynrychioli corff o wybodaeth o fewn traethawd ymchwil cydlynol a pharhaus, yn hytrach na chyfres o gyhoeddiadau digyswllt. O'r herwydd, dylai unrhyw gyhoeddiadau fod wedi'u haddasu a'u hintegreiddio o fewn strwythur y traethawd ymchwil. Dylai unrhyw adrannau o'r traethawd ymchwil sydd wedi'u cyhoeddi neu sydd mewn fformat y gellid ei gyhoeddi fod wedi'u nodi'n glir.

24. Rhaid i unrhyw waith a gyflwynir o fewn y traethawd ymchwil ar ffurf amgen fod yn sylweddol wahanol i unrhyw waith sydd, o bosibl, wedi'i gyflwyno am unrhyw radd yn y sefydliad hwn neu unrhyw sefydliad arall.

25. Mae'n hanfodol bod y traethawd ymchwil ar ffurf amgen yn cynnwys dadansoddiad manwl a beirniadol o'r gwaith a'r dulliau a ddefnyddiwyd, gan ei bod yn bosibl na fydd adrannau sydd wedi'u fformadu ar gyfer cyhoeddi/dosbarthu yn cynnwys y lefel hon o fanylder eisoes. Dylai strwythur y traethawd ymchwil ar ffurf amgen gynnwys y canlynol:

I. Yr holl dudalennau angenrheidiol ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil arferol, y ceir manylion yn eu cylch yn y canllawiau cyflwyno PhD

II. Rhesymeg dros gyflwyno'r traethawd ymchwil ar ffurf amgen a disgrifiad o sut y cafodd fformat y traethawd ei greu

III. Cyd-destun ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwil, a ddylai gynnwys adrannau/penodau o hyd at 20,000 o eiriau o ran cyfanswm yn diffinio'r rhesymeg ar gyfer yr ymchwil a'r strategaeth a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwil fel y'i dangosir yn y traethawd ymchwil. Dylai'r adran/penodau cyd-destun gynnwys crynodeb o bob cyhoeddiad a gyflwynwyd; amlinelliad o'u cydberthynas, gan gynnwys cyfosodiad o'r gwaith fel y'i dangoswyd gan y cyhoeddiadau fel astudiaeth gydlynol gyflawn; crynodeb o nodau, amcanion, methodoleg, canlyniadau a chasgliadau yr ymchwil a gwmpasir gan y gwaith a gyflwynwyd; myfyrion beirniadol ar y fethodoleg a'r dulliau ymchwil; adolygiad beirniadol o'r cyfraniad sylweddol a gwreiddiol y mae'r gwaith yn ei wneud i'r maes academaidd dan sylw; ac arddangosiad o'r cyfraniad gwreiddiol ac annibynnol i wybodaeth a rhesymeg i brofi ei fod o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddangosir fel arfer drwy gyflwyno traethawd ymchwil

IV. Adolygiad ysgrifenedig o ymchwil flaenorol yn cynnwys adrannau yn crynhoi ac yn cyfodol ymchwil flaenorol ym maes yr astudiaeth

V. Methodoleg ysgrifenedig yn rhoi manylion y dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwil a dadansoddiad beirniadol manwl o'r dulliau hynny a'r wybodaeth y gwnaethant ei darparu

VI. Cyflwyno'r canlyniadau a'r dadansoddiad ohonynt ar ffurf sy'n addas i'w gyflwyno mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid ac/neu mewn penodau traethawd ymchwil confensiynol fel mewn traethawd ymchwil PhD arferol

VII. Crynodeb/casgliad yn dwyn ynghyd amrywiol ganlyniadau'r gwaith yn synthesis cydlynol ac yn nodi cyfeiriadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol

VIII. Cyfeiriadau ac atodiadau fel mewn traethawd ymchwil PhD arferol

26. Gall ymgorffori penodau mewn arddull cyhoeddiad yn y traethawd ymchwil arwain at ryw faint o ddyblygu gan y gall pob pennod yn arddull cyhoeddiad fod ag elfennau hunangynhwysol a allai orgyffwrdd â rhannau o adrannau eraill y traethawd ymchwil. Serch hynny, ni ddylai uchafswm hyd y traethawd ymchwil doethurol ar ffurf amgen fod yn hwy, fel arfer, na hyd traethawd ymchwil arferol.

27. Fel yn achos traethawd ymchwil doethurol arferol, dylai arholwyr fodloni eu hunain bod y traethawd ymchwil ar ffurf amgen yn cwrdd anghenion y radd ddoethurol fel y cânt eu pennu yn y rheoliadau a'r polisiau priodol. Nid yw'r ffaith fod traethawd ymchwil yn cynnwys deunydd sydd wedi'i gyhoeddi neu ei dderbyn ar gyfer ei gyhoeddi yn gwarantu y bydd yr arholwyr yn argymhell y radd y mae'r ymgeisydd yn cael ei (h)arholi ar ei chyfer.

Rheoliadau ar gyfer Gradd Doethur mewn Athroniaeth (Cymeradwywyd i fyfyrwyr a dderbynnir o fis Medi 2023)

Mae'r Rheoliadau hyn yn rheoli dyfarnu gradd Doethur mewn Athroniaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth, sef y Brifysgol o hyn allan.

Gall y Brifysgol ddyfarnu gradd Doethur mewn Athroniaeth i gydnabod cwblhau'n llwyddiannus gynllun o astudio pellach ac ymchwil y bernir bod ei ganlyniadau yn gyfraniad gwreiddiol i ddysg ac yn dystiolaeth o astudio systematig a'r gallu i gysylltu canlyniadau'r cyfryw astudio â'r corff cyffredinol o wybodaeth yn y pwnc.

Bydd y cyfeiriadau isod at y traethawd ymchwil yn cwmpasu cyflwyniadau ar ffurfiau amgen (gweler rheoliadau 17–27 isod) a chyflwyniadau sy'n seiliedig ar ymarfer yn y celfyddydau creadigol (gweler rheoliad 16).

Wrth farnu teilyngdod traethawd ymchwil a gyflwynir mewn ymgeisyddiaeth am radd PhD, bydd yr arholwyr yn cadw mewn cof safon ac ystod y gwaith y mae'n rhesymol disgwyl i fyfyrwr galluog a dygn ei gyflwyno ar ôl cyfnod o dair neu pedair blynedd (fel y bo'n briodol) o astudio llawn-amser, neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser.

Ar ôl cwblhau Gradd Doethur, bydd graddedigion wedi cyflawni Lefel D, fel y'i diffinnir gan Fframwaith yr ASA ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Dulliau Astudio

1. Gall ymgeisydd astudio ar gyfer y radd drwy gyfrwng un o'r dulliau canlynol:

A drwy wneud ymchwil lawn-amser yn y Brifysgol;

B drwy wneud ymchwil lawn-amser mewn man cyflogaeth allanol;

C drwy wneud ymchwil ran-amser yn y Brifysgol neu'n allanol;

Dylai myfyrwyr sy'n gwneud cais o dan adran B fod yn gweithio mewn canolfan ymchwil allanol neu sefydliad tebyg sydd â'r staff a'r adnoddau i gynnal a goruchwylio'r prosiect ymchwil ond nad oes ganddynt bwerau dyfarnu graddau. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu:

- datganiad o gefnogaeth gan y cyflogwr yn cadarnhau y byddant yn caniatáu i'r myfyriwr weithio'n llawn-amser ar y prosiect ymchwil ac y byddant yn darparu'r adnoddau angenrheidiol.
- cadarnhad o'r trefniadau goruchwylio gan gynnwys CV y goruchwyliwr lleol.
- cadarnhad fod gan yr ymgeisydd, neu y gallai gael, y sgiliau ymchwil angenrheidiol heb fynychu hyfforddiant ymchwil PA.
- cytundeb ar unrhyw hyfforddiant ymchwil PA fydd ei angen.

2. Mae'n bosibl, mewn achosion addas, i drosglwyddo o un dull o'r rheoliadau i un arall, e.e. o lawn-amser (Dull A) i ran-amser (Dull C) ac fel arall. Mewn achosion o'r fath, bydd y Brifysgol yn pennu isafswm cyfnod astudio diwygiedig ac yn gosod y dyddiad cynharaf ar gyfer cyflwyno'r traethawd ymchwil.

Cymhwystera

3. Rhaid i ymgeisydd am radd PhD feddu ar un o'r cymwysterau canlynol cyn dechrau ar ei ymchwil neu ei hymchwil:

- (a) gradd gychwynnol o Brifysgol Aberystwyth;
- (b) gradd gychwynnol o Brifysgol arall a gymeradwywyd at y diben hwn;
- (c) cymhwyster nad yw'n radd y mae'r Brifysgol wedi barnu ei fod yn cyfateb i raddio.

Gall adrannau osod gofynion ychwanegol megis cyflawni dosbarth gradd penodol neu feddu ar ddyfarniad Meistr.

Rhaid i ddarpar ymgeisydd a chanddo/a chanddi eisoes radd ddoethurol allu dangos bod y cynllun PhD mewn maes ymchwil gwahanol i'r un y dyfarnwyd y PhD (neu radd ddoethurol arall) amdano.

4. Beth bynnag fo cymwysterau ymgeisydd, rhaid i'r Brifysgol fodloni ei hun bod ymgeisydd o'r safon academiaidd sy'n ofynnol er mwyn cwblhau'r cynllun ymchwil arfaethedig. Gall hyn olygu gofyn i'r ymgeisydd ddarparu portffolio o ysgrifennu creadigol neu fath arall, a chyfweld ag ymgeiswyr i asesu eu dealltwriaeth o'r cynnig ymchwil.

5. Mae'n ofynnol i'r holl ymgeiswyr fatricwleiddio gyda'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn darparu rhestr o safonau a gymeradwywyd a fydd yn caniatáu mynediad i ymgeisyddiaeth am un o raddau uwch y Brifysgol. Cynhwysir y rhestr hon yn y "Rheoliadau ar gyfer Cymeradwyo Cymwysterau a/neu Brofiad Perthnasol ar gyfer Derbyn i Raddau, Diplomâu a Thystysgrifau Uwch Prifysgol Aberystwyth".

Yn achos ymgeisydd nad oes ganddo/ganddi gymhwyster mynediad cydnabyddedig, rhaid i'r Adran dan sylw wneud argymhelliad arbennig ar gyfer ei d(d)erbyn i'r Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion a rhaid i'r gymeradwyaeth gael ei chadarnhau cyn bod cynllun astudio arfaethedig yr ymgeisydd yn cychwyn.

Cyfnodau Cofrestru a Threfniadau Prawf

6. Rhaid i'r ymgeisydd ymrestru yn y Brifysgol, talu'r ffi briodol a bennir a dilyn y cynllun ymchwil am yr isafswm cyfnod a ddiffinnir isod:

Dulliau A a B:

Isafswm cyfnod: tair blynedd, y gyntaf ohonynt yn cael ei hystyried yn flwyddyn brawf

Dulliau C:

Isafswm cyfnod: chwe blynedd, y ddwy flynedd gyntaf ohonynt yn cael eu hystyried yn flynyddoedd prawf

Serch yr uchod, gall yr Adran ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd wneud ymchwil am gyfnod hwy na'r cyfnodau isafswm hyn.

7. Er mwyn caniatáu i'r arholiad gael ei gwblhau, caniateir i ymgeisydd gyflwyno traethawd ymchwil chwe mis cyn i'r cynllun astudio a gymeradwywyd ddod i ben. Er hynny, bydd ffioedd dysgu yn daladwy am y cyfnod cofrestru llawn. Pan fydd cyfnod ychwanegol o ymchwil yn ofynnol gan yr ymgeisydd (fel y disgrifir dan baragraff 6 uchod) bydd dyddiad cyflwyno cynharaf yr ymgeisydd yn cael ei ymestyn gan gyfnod o amser sy'n gyfartal o ran hyd â hyd y cyfnod astudio ychwanegol.

8. Yn ystod y flwyddyn/cyfnod prawf, disgwylir i'r ymgeisydd ddangos ei (g)allu i fwrw ymlaen ag ymchwil bellach.

9. Serch paragraffau 5 a 7 uchod, gall ymgeisydd gael ei (h)eithrio rhag y flwyddyn/cyfnod prawf os ydyw ef/hi:

(a) yn meddu ar radd Meistr uwchraddedig o Brifysgol a gymeradwywyd, a honno wedi ei hennill drwy ymchwil neu uwch-astudiaethau sydd ym marn yr adran/Athrofa yn gefndir academiaidd digonol i ganiatáu i'r ymchwil arfaethedig gael ei chwblhau o fewn dwy flynedd.

(b) wedi cwblhau o leiaf flwyddyn yn llawn-amser neu ddwy flynedd yn rhan-amser o waith uwchraddedig o dan oruchwyliaeth yn yr un ddisgyblaeth academiaidd â'r cynllun ymchwil PhD arfaethedig er boddhad y Brifysgol ar argymhelliad yr adran/Athrofa briodol.

(c) wedi cyflwyno gwaith ymchwil uwchraddedig o safon sy'n cyfateb yn fras i safon gradd Meistr ac wedi ei gymeradwyo gan y Brifysgol ar argymhelliad yr Adran/Athrofa briodol.

(d) wedi cael o leiaf flwyddyn o brofiad perthnasol ers graddio, a chymeradwyaeth o'r fath i'w rhoi gan y Brifysgol ar argymhelliad yr Adran/Athrofa briodol.

Rhestrir y Prifysgolion hynny y mae eu graddau Meistr wedi'u cymeradwyo at ddibenion eithrio o'r cyfnod prawf yn 'Rheoliadau ar gyfer Cymeradwyo Cymwysterau a/neu Brofiad Perthnasol ar gyfer Derbyn i Raddau, Diplomâu a Thystysgrifau Uwch Prifysgol Aberystwyth'.

Ni ddyfernir unrhyw eithriadau eraill.

Terfynau Amser

10. Daw ymgeisyddiaeth i ben os na chyflwynir traethawd ymchwil, yn y ffurf a'r modd a bennwyd, erbyn y terfyn amser a restrir isod:

Dulliau A a B:

Pedair blynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd, neu, lle mae'r ymgeisydd wedi ei eithrio rhag y flwyddyn brawf, tair blynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd.

Dulliau C:

Wyth mlynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd, neu, lle mae'r ymgeisydd wedi ei eithrio rhag y cyfnod prawf, chwe blynedd o ddechrau swyddogol cyfnod astudio'r ymgeisydd.

Gall y terfynau amser uchod gael eu hymestyn gan y Brifysgol, ond dim ond mewn achosion eithriadol ac yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Rheoliadau ar gyfer Cyflwyno Traethodau Ymchwil am Raddau Ymchwil a'u Harholi. Rhaid i adran yr ymgeisydd gyflwyno cais rhesymedig, wedi'i gefnogi â thystiolaeth annibynnol addas, i'r Brifysgol ei ystyried.

D.S. I fyfyrwyr a dderbyniwyd o fis Medi 2018, mae'r Cyfyngiadau Amser canlynol ar gyfer Cwblhau, gan gynnwys unrhyw gyfnodau o dynnu'n ôl dros dro ac estyniadau a gymeradwywyd gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion, yn berthnasol:

O'r dyddiad cofrestru cychwynnol tan eich bod yn cyflwyno'r traethawd ymchwil i'w arholi am y tro cyntaf:

PhD/PhDFA amser-llawn: chwe blynedd

PhD/PhDFA rhan-amser: deng mlynedd

Gellir cael estyniadau i'r cyfyngiadau hyn gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil) o dan yr amod:

1. Bod tystiolaeth o amgylchiadau arbennig yn cael ei chyflwyno
2. Bod adran y myfyriwr yn cadarnhau bod y prosiect ymchwil yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddichonadwy a bod y myfyriwr yn gallu cwblhau'r prosiect o fewn cyfnod yr estyniad.

Goruchwyllo

11. Rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu goruchwyllo, yn rheolaidd ac yn barhaus, yn unol â'i gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer goruchwyllo uwchraddedigion.
12. Bydd gan bob ymgeisyddiaeth dîm o oruchwylwyr yn cynnwys o leiaf un prif oruchwyllydd ac ail oruchwyllydd, a enwebir gan Adran yr ymgeisydd.

- Fel arfer bydd y prif oruchwyllydd yn aelod o staff academaidd y Brifysgol;
- Fel arfer, bydd yr ail oruchwyllydd yn aelod o staff academaidd y Brifysgol neu sefydliad neu gorff sy'n cydweithredu â hi.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer goruchwyllo uwchraddedigion ar gael i fyfyrwyr a goruchwylwyr trwy gyfrwng y Codau Ymarfer a'r Llawlyfr Goruchwylwyr.

Hyd y Traethawd Ymchwil, a'i Gyflwyno

13. Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ei (h)ymchwil drwy gyflwyno traethawd ymchwil (100,000 o eiriau o hyd ar y mwyaf, heb gynnwys atodiadau a chyfeiriadau) sy'n ymgorffori dulliau a chanlyniadau'r ymchwil. Bydd angen i Fwrdd Arholi wedi ei gyfansoddi'n briodol gynnal arholiad llafar ar gyfer ymgeisydd PhD sy'n cyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi. Er hynny, fe ellir hepgor y gofyniad hwn ar ddisgresiwn y Bwrdd Arholi, wrth arholi traethawd ymchwil sydd wedi ei ailgyflwyno pan mae'r arholwyr yn argymhell pasio'n glir heb newidiadau, neu gyda chywiriadau neu newidiadau mân iawn yn unig. Dan amgylchiadau eraill eithriadol, gellir hepgor arholiad llafar ar gyfer traethawd sydd wedi'i ailgyflwyno gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Arholi a Phennaeth Ysgol y Graddedigion.

14. Rhaid i ymgeiswyr lofnodi datganiad yn ardystio na dderbyniwyd y gwaith a gyflwynir yn ei hanfod am unrhyw radd neu ddyfarniad, ac nad yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd neu ddyfarniad arall. Rhaid cynnwys y datganiad, wedi ei lofnodi, ym mhob copi o'r gweithiau a gyflwynir i'w harholi.

15. Rhaid i'r Brifysgol sicrhau bod ffurf cyflwyno ac arholi'r traethawd ymchwil yn cydymffurfio â Rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer Cyflwyno Traethodau Ymchwil a'u Harholi.

Darpariaethau arbennig mewn perthynas â Chynlluniau yn y Celfyddydau Creadigol

16. Yn achos ymgeiswyr sy'n dilyn cynlluniau gradd ymchwil cymeradwyedig sy'n syrthio o fewn maes pwnc Celfyddydau Creadigol a Pherfformiadol y Brifysgol, gall y traethawd ymchwil fod ar un neu ragor o'r ffurfiau canlynol: arteffact, sgôr, testun, portffolio o weithiau gwreiddiol, perfformiad neu arddangosfa. Dylid cyflwyno ar y cyd â'r gwaith sylwadaeth sy'n gosod y gwaith yn ei gyd-destun academaidd, ynghyd ag unrhyw eitemau eraill a all fod yn ofynnol (e.e. catalog, neu recordiad sain neu weledol).

Ym mhob achos, bydd y cyflwyniad a'r sylwadaeth ysgrifenedig wedi'u rhwymo, a bydd yr eitemau eraill sy'n ofynnol (e.e. tâp neu gyfrwng arall) wedi'u cynnwys mewn cynhwysydd sy'n addas i'w storio ar silff llyfrgell ac arno, ar y meingefn, yr un wybodaeth â'r hyn sy'n ofynnol ar

gyfer traethodau estynedig/traethodau ymchwil. Dylid gosod y wybodaeth hon fel ei bod yn rhwydd i'w darllen ar y cynhwysydd yn y safle lle caiff ei storio.

Cyflwyno ar ffurf amgen

17. Mae'r ffurf amgen yn caniatáu i ymgeisydd doethurol ymgorffori deunydd sydd mewn fformat addas i'w gyflwyno ar gyfer ei gyhoeddi mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid. Ar wahân i'r ffaith ei fod yn cynnwys deunyddiau o'r fath, rhaid i'r traethawd ymchwil ar ffurf amgen gydymffurfio â'r un rheoliadau sy'n rheoli'r traethawd ymchwil PhD arferol. Bydd y meini prawf ar gyfer y dyfarniad a'r safon y mae'n rhaid ei chyrraedd hefyd yr un fath ag ar gyfer y PhD arferol. Rhaid i ymgeiswyr sydd eisiau cyflwyno eu gwaith ar y ffurf amgen ddilyn y canllawiau isod.

18. Gall deunyddiau a gynhwysir yn y traethawd ymchwil ar ffurf amgen gynnwys rhai sydd wedi'u cynhyrchu gan y myfyriwr yn unig ac/neu yn rhannol a gallant fod wedi'u cyhoeddi eisoes, wedi'u derbyn ar gyfer eu cyhoeddi, neu wedi eu cyflwyno i gael eu cyhoeddi mewn cyd-destunau a gymedrolir yn allanol megis cyfnodolion a thrafodion cynhadledd.

19. Dylai'r traethawd ymchwil barhau i fod yn gyfraniad gwreiddiol gan y myfyriwr i'r maes ymchwil, beth bynnag fo ei fformat. Rhaid gwneud datganiad clir ar ddechrau'r traethawd ymchwil i egluro a chyfiawnhau yn llawn natur a maint cyfraniad yr ymgeisydd ei hun a chyfraniad unrhyw gyd-awduron a chyd-weithredwyr eraill i'r cyhoeddiadau a gyflwynwyd. Rhaid i'r cyd-awduron neu'r cyd-weithredwyr lofnodi datganiadau yn cadarnhau hyn. Dylai'r deunyddiau a ymchwiliwyd ddeillio o ymchwil wreiddiol a wnaed wedi'r dyddiad pan gofrestrodd y myfyriwr gyntaf gyda'r Brifysgol.

20. Rhaid i unrhyw ymgeisydd sy'n dymuno cyflwyno ei draethawd ymchwil ar ffurf amgen gyflwyno cais ysgrifenedig, yn rhoi amlinellad o strwythur arfaethedig y traethawd ymchwil i'w oruchwylydd a'r Pwyllgor Monitro Uwchraddedig priodol er mwyn ei gymeradwyo. Rhaid cyflwyno'r cais hwn cyn diwedd blwyddyn dau i ymgeiswyr llawn-amser a diwedd blwyddyn pedwar i ymgeiswyr rhan-amser. Dylai'r cais nodi pam mae'r traethawd ymchwil ar ffurf amgen yn fwy addas i'r prosiect ymchwil a dangos sut y bydd yr ymgeisydd yn cymryd mantais lawn o'r ffurf amgen. Os rhoddir cymeradwyaeth i gyflwyno ar ffurf amgen, rhaid i'r myfyriwr gael y ffurflen Caniatâd i gyflwyno traethawd ymchwil PhD ar ffurf amgen o'r swyddfa briodol. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno'r ffurflen gyda'u traethawd ymchwil.

21. Gall nifer y papurau a gynhwysir yn y traethawd ymchwil ar ffurf amgen amrywio yn ôl y ddisgyblaeth, ond bydd fel arfer rhwng tri a phump. Dylai'r papurau adlewyrchu maint, ansawdd a gwreiddioldeb yr ymchwil a'r dadansoddi a ddisgwyli'r gan ymgeisydd sy'n cyflwyno traethawd ymchwil doethurol arferol.

22. Rhaid i'r papurau gynrychioli corff o wybodaeth o fewn traethawd ymchwil cydlynol a pharhaus, yn hytrach na chyfres o gyhoeddiadau digyswllt. O'r herwydd, dylai unrhyw gyhoeddiadau fod wedi'u haddasu a'u hintegreiddio o fewn strwythur y traethawd ymchwil. Dylai unrhyw adrannau o'r traethawd ymchwil sydd wedi'u cyhoeddi neu sydd mewn fformat y gellid ei gyhoeddi fod wedi'u nodi'n glir.

23. Rhaid i unrhyw waith a gyflwynir o fewn y traethawd ymchwil ar ffurf amgen fod yn sylweddol wahanol i unrhyw waith sydd, o bosibl, wedi'i gyflwyno am unrhyw radd yn y sefydliad hwn neu unrhyw sefydliad arall.

24. Mae'n hanfodol bod y traethawd ymchwil ar ffurf amgen yn cynnwys dadansoddiad manwl a beirniadol o'r gwaith a'r dulliau a ddefnyddiwyd, gan ei bod yn bosibl na fydd adrannau sydd

wedi'u fformadu ar gyfer cyhoeddi/dosbarthu yn cynnwys y lefel hon o fanylder eisoes. Dylai strwythur y traethawd ymchwil ar ffurf amgen gynnwys y canlynol:

I. Yr holl dudalennau angenrheidiol ar gyfer cyflwyno traethawd ymchwil arferol, y ceir manylion yn eu cylch yn y canllawiau cyflwyno PhD

II. Rhesymeg dros gyflwyno'r traethawd ymchwil ar ffurf amgen a disgrifiad o sut y cafodd fformat y traethawd ei greu

III. Cyd-destun ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwil, a ddylai gynnwys adrannau/penodau o hyd at 20,000 o eiriau o ran cyfanswm yn diffinio'r rhesymeg ar gyfer yr ymchwil a'r strategaeth a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwil fel y'i dangosir yn y traethawd ymchwil. Dylai'r adran/penodau cyd-destun gynnwys crynodeb o bob cyhoeddiad a gyflwynwyd; amlinelliad o'u cydberthynas, gan gynnwys cyfosodiad o'r gwaith fel y'i dangoswyd gan y cyhoeddiadau fel astudiaeth gydlynol gyflawn; crynodeb o nodau, amcanion, methodoleg, canlyniadau a chasgliadau yr ymchwil a gwmpasir gan y gwaith a gyflwynwyd; myfyrio beirniadol ar y fethodoleg a'r dulliau ymchwil; adolygiad beirniadol o'r cyfraniad sylweddol a gwreiddiol y mae'r gwaith yn ei wneud i'r maes academaidd dan sylw; ac arddangosiad o'r cyfraniad gwreiddiol ac annibynnol i wybodaeth a rhesymeg i brofi ei fod o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddangosir fel arfer drwy gyflwyno traethawd ymchwil

IV. Adolygiad ysgrifenedig o ymchwil flaenorol yn cynnwys adrannau yn crynhoi ac yn cyfodod ymchwil flaenorol ym maes yr astudiaeth

V. Methodoleg ysgrifenedig yn rhoi manylion y dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymchwil a dadansoddiad beirniadol manwl o'r dulliau hynny a'r wybodaeth y gwnaethant ei darparu

VI. Cyflwyno'r canlyniadau a'r dadansoddiad ohonynt ar ffurf sy'n addas i'w gyflwyno mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid ac/neu mewn penodau traethawd ymchwil confensiynol fel mewn traethawd ymchwil PhD arferol

VII. Crynodeb/casgliad yn dwyn ynghyd amrywiol ganlyniadau'r gwaith yn synthesis cydlynol ac yn nodi cyfeiriadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol

VIII. Cyfeiriadau ac atodiadau fel mewn traethawd ymchwil PhD arferol

25. Gall ymgorffori penodau mewn arddull cyhoeddiad yn y traethawd ymchwil arwain at rywfaint o ddyblygu gan y gall pob pennod yn arddull cyhoeddiad fod ag elfennau hunangynhwysol a allai orgyffwrdd â rhannau o adrannau eraill y traethawd ymchwil. Serch hynny, ni ddylai uchafswm hyd y traethawd ymchwil doethurol ar ffurf amgen fod yn hwy, fel arfer, na hyd traethawd ymchwil arferol.

26. Fel yn achos traethawd ymchwil doethurol arferol, dylai arholwyr fodloni eu hunain bod y traethawd ymchwil ar ffurf amgen yn cwrdd anghenion y radd ddoethurol fel y cânt eu pennu yn y rheoliadau a'r polisiau priodol. Nid yw'r ffaith fod traethawd ymchwil yn cynnwys deunydd sydd wedi'i gyhoeddi neu ei dderbyn ar gyfer ei gyhoeddi yn gwarantu y bydd yr arholwyr yn argymhell y radd y mae'r ymgeisydd yn cael ei (h)arholi ar ei chyfer.

27. Gall cyhoeddi papurau ymchwil mewn cyfnodolion arwain at gostau ariannol; er enghraifft taliadau ar gyfer tudalennau mewn cyfnodolion, costau talu ar gyfer cyhoeddi mewn cyfnodolion "Mynediad Agored" neu gostau atgynhyrchu mewn lliw. Rhaid i'r myfyriwr gael gwybod am y costau ariannol posibl hyn gan y tîm goruchwyllo ar yr adeg pan wneir y penderfyniad i gynhyrchu traethawd ymchwil fformat amgen.

Rheoliadau ar gyfer Dyfarnu Gradd PhD (drwy Weithiau Cyhoeddedig)

Cymeradwywyd i fyfyrwyr sy'n cychwyn o fis Medi 2023 ymlaen

Mae'r radd PhD drwy Weithiau Cyhoeddedig yn gymhwyster doethurol sy'n seiliedig ar ymchwil a wnaed ac a gyhoeddwyd eisoes. Ynghyd â'r deunyddiau hyn ceir dadansoddiad beirniadol i ddangos bod cwmpas, cydlynad ac arwyddocâd y gweithiau cyhoeddedig, yn ogystal â'r cyfraniad a wnânt tuag at ein gwybodaeth, yn cyfateb i PhD sy'n seiliedig ar brosiect ymchwil a wneir yn y brifysgol.

Bydd y meini prawf ar gyfer dyfarnu Gradd PhD (drwy Weithiau Cyhoeddedig) yr un fath â'r meini prawf a bennwyd ar gyfer Gradd PhD.

Gellir diffinio 'Gweithiau Cyhoeddedig' fel gweithiau sydd yn y parth cyhoeddus neu sydd o leiaf wedi eu derbyn i gael eu cyhoeddi (ar yr amod bod yr ymgeisydd yn gallu rhoi prawf digonol bod hynny'n wir). Ni ddylai'r gweithiau a gyflwynir i'w harholi fod wedi eu cyhoeddi fwy na deng mlynedd cyn y dyddiad cofrestru.

Yn unol â chynlluniau graddau ymchwil sy'n dod o fewn maes pynciau Celfyddydau Creadigol a Pherfformiadol y Brifysgol, gall y gweithiau cyhoeddedig fod ar un neu ragor o'r ffurfiau canlynol: arteffact, sgôr, testun, portffolio o weithiau gwreiddiol, perfformiad neu arddangosfa. Dylid cyflwyno, ar y cyd â'r gwaith, unrhyw eitemau eraill a all fod yn ofynnol (e.e. catalog, neu recordiad sain neu weledol).

Ar ôl cwblhau gradd Doethur, bydd gradddedigion wedi cyflawni Lefel D fel y'i diffinnir gan Fframwaith yr ASA ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cymhwystra Ymgeiswyr

awr yr wythnos (ar gyfartaledd ar draws y flwyddyn academaidd), bydd ei Fwrdd Arholi yn cynnwys cadeirydd a dau arholwr allanol.

11.4 Os nad yw'n bosibl penodi arholwr mewnol, gellir penodi ail arholwr allanol.

11.5 Ym mhob achos, bydd y cadeirydd yn aelod o staff y Brifysgol sydd wedi ymgymryd â Hyfforddiant Cadair briodol y Brifysgol, ac sydd fel arfer o'r un Ysgol (neu gyfwerth) â'r myfyriwr. Bydd y cadeirydd yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan RDG y Brifysgol (neu gyfwerth).

11.6 Gellir cynnig hefyd i un goruchwyliwr fod yn bresennol yn yr archwiliad, gyda'r gofyniad hwn yn cael ei gyflwyno ar y cam cynnig hwn.

11.7 Wrth gynnig pob arholwr (nid cadeirydd) ar lwyfan/system ddoethurol briodol, mae angen naratif byr ond digonol ar pam mae pob arholwr yn addas. Yn ogystal, mae angen CV byr i ategu'r naratif hwn, a ffurflen datganiad wedi'i chwblhau a'i llofnodi hefyd. Gellir dod o hyd i ganllawiau ym mhorth mewnol y Brifysgol.

11.8 Bydd RDG y Brifysgol (neu gyfwerth) yn cymeradwyo penodi arholwr dim ond mewn achosion lle mae'n fodlon ei fod yn ddigon cyfarwydd â natur a phwrpas y radd y mae'r myfyriwr yn cael ei harchwilio ar ei chyfer a bod ganddynt ddigon o wybodaeth ac arbenigedd ym maes pwnc y prosiect ymchwil. Bydd unrhyw gais a wrthodwyd gan y Bwrdd Arholi (neu gyfwerth) fel arfer yn cael ei ddatrys o fewn pedair wythnos i dderbyn y canlyniad.

11.9 Rhaid i fyfyrwyr beidio â chyflwyno eu traethawd ymchwil nes bod eu trefniadau arholi wedi'u cymeradwyo - oni bai eu bod yn agosáu at ddiwedd eu ymgeisyddiaeth. Os ydynt yn agosáu at ddiwedd y dyddiad ymgeisyddiaeth, yna dylai myfyrwyr gyflwyno neu ofyn am estyniad i astudio. Sylwch NA fydd y broses viva voce yn symud ymlaen nes bod y trefniadau arholi yn cael eu cymeradwyo.

12 CYFLWYNO A CHYFLWYNO'R TRAETHAWD YMCHWIL

12.1 Mae manylion llawn gofynion y Brifysgol ynghylch cyflwyno traethawd ymchwil i'w gweld yn y Llawlyfr Myfyrwyr.

12.2 Ni ddylai'r cyflwyniad, gan gynnwys troednodiadau, fod yn fwy na 60,000 o eiriau. Ni fyddai'r cyfrif geiriau yn cynnwys Tablau, ffigurau, rhestr gyfeirio, ac atodiadau. Bydd cyflwyniad myfyrwyr sy'n cyflwyno traethawd ymchwil sy'n hirach yn cael eu cyflwyno yn ôl iddynt i fynd i'r afael â'r cyfrif geiriau – gyda dyddiad cau o ddau fis yn cael ei ddarparu i fynd i'r afael â'r cyfrif geiriau. Bydd methu â chyflawni'r dyddiad cau newydd hwn heb liniaru yn arwain at i'r myfyriwr adael heb ddyfarniad.

12.3 Ym mhob achos, rhaid i'r traethawd ymchwil gynnwys crynodeb heb fod yn fwy na 300 o eiriau a Ffurflen Datganiad (sydd i'w gweld ym mhorth mewnol y Brifysgol), wedi'i lofnodi gan y myfyriwr sy'n cynnwys:

(i) Datganiad yn dangos i ba raddau mae'r gwaith a gyflwynwyd yn ganlyniad ymchwiliad y myfyriwr ei hun.

(ii) Datganiad yn ardystio nad yw'r gwaith eisoes wedi'i dderbyn mewn sylwedd ar gyfer unrhyw radd ac nad yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth ar gyfer unrhyw radd arall.

(iii) Datganiad y mae gwaith/pennod(au) sy'n cael ei gynnwys yn y traethawd ymchwil sydd wedi bod trwy broses adolygu cymheiriaid ac a gyhoeddwyd mewn allfa gyfnodolyn gydnabyddedig.

(iv) Datganiad ynghylch argaeledd y traethawd ymchwil.

12.4 Bydd traethawd ymchwil a gyflwynwyd ar gael yn agored ac ni fydd fel arfer yn destun unrhyw ddiogelwch na chyfyngiad mynediad. Mewn achosion lle nad yw hyn yn briodol, bydd Cyfarwyddwr Astudiaethau myfyriwr yn gwneud cais i RDG y Brifysgol (neu gyfwerth) i wahardd copïo a/neu fynediad at y traethawd ymchwil am gyfnod penodol. Dylid gwneud ceisiadau o'r fath cyn gynted ag y bydd unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyfrinachedd yn codi. Mewn achosion o'r fath, bydd teitl a chrynodeb y traethawd ymchwil ar gael am ddim fel arfer.

12.5 Mae'n ofynnol i fyfyrwyr gyflwyno copi electronig o'r traethawd ymchwil ac unrhyw ddeunydd ychwanegol trwy lwyfan / system doethuriaeth briodol. Efallai y bydd angen copïau caled o'r traethawd ymchwil os yw'r arholwyr yn nodi'n benodol. Os bydd angen, bydd hyn yn cael ei gyfleu i'r myfyriwr gan Weinyddwr Arholiad Gradd Ymchwil y Brifysgol a bydd cost yr argraffu, rhwymo, a phostio yn dod o dan Ysgol y myfyriwr (neu gyfatebol sefydliadol) Ceir rhagor o fanylion am hyn ym mhorth mewnol y Brifysgol.

12.6 Bydd y cyflwyniad electronig yn cael ei uwchlwytho i Turnitin, y llwyfan canfod llên-ladrad, i gynhyrchu adroddiad gwreiddioldeb gyda 'mynegai tebygrwydd'. Bydd yr adroddiad yn cael ei adolygu gan aelodau o Adroddiad y Bwrdd Arholi a Grŵp Adolygu Turnitin (is-bwyllgor Grŵp Graddau Ymchwil y Brifysgol (neu gyfatebol sefydliadol). Bydd unrhyw gyflwyniad y bernir bod ei uniondeb academiaidd yn peri pryder yn cael ei anfon at Wasanaethau'r Gofrestrfa y Brifysgol i'w ystyried yn ffurfiol o dan y gweithdrefnau ymarfer annheg .

12.7 Unwaith y bydd y traethawd ymchwil wedi'i gyflwyno, ni chaniateir i'r myfyriwr wneud unrhyw welliannau, ychwanegiadau na dileu iddo cyn yr arholiad, ac eithrio pan fo caniatâd wedi'i roi yn benodol gan RDG y Brifysgol (neu gyfwerth).

13 BWRDD ARHOLI AR GYFER Y THESIS

13.1 Mae myfyriwr EdD yn cael ei archwilio ar ei draethawd ymchwil, sydd wedi'i gynnwys yn y gwaith a gyflwynir.

13.2 Mae'r broses astudio ar gyfer pob myfyriwr yn cynnwys dau gam:

(i) asesiad annibynnol rhagarweiniol o'r traethawd ymchwil gan yr arholwyr, a fydd i gyd yn paratoi adroddiad cyn-viva ar y traethawd ymchwil (neu gyfwerth) ac yn cyflwyno i lwyfan / system ddoethurol briodol heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn dyddiad arholiad viva voce.

(ii) arholiad llafar (y viva voce) a gynhaliwyd gan y Bwrdd Arholi.

14 CANLYNIADAU ARHOLIADAU

14.1 Ar gyfer arholiadau viva voce ar gyfer yr EDD, yr argymhellion sydd ar gael i aelodau'r bwrdd yw:

A: Mae'r myfyriwr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y wobr. Efallai y bydd arholwyr yn argymhell bod y dyfarniad yn cael ei wneud:

- i) Heb gywiro pellach neu ddiwygiad i'r traethawd ymchwil.
- ii) Yn amodol ar fân ddiwygiad i'r traethawd ymchwil fel y nodir gan yr arholwyr, y gellir ei gwblhau yn rhesymol o fewn uchafswm o dri mis.

Bydd diwygiadau yn cael eu cymeradwyo gan un neu'r ddau arholwr.

iii) Yn amodol ar ddiwygiad mawr i'r traethawd ymchwil; a allai gynnwys mynd i'r afael â diffygion o ran cynnwys, dadansoddi a/neu gyflwyno mewn meysydd a nodwyd gan yr arholwyr, ac y gellir eu cwblhau'n rhesymol o fewn uchafswm o 6 mis.

Bydd gwelliannau yn cael eu cymeradwyo gan y ddau arholwr er na fydd angen ailarholi.

Nid yw'r opsiwn hwn ar gael i arholwyr wrth ystyried traethawd ymchwil wedi'i ailgyflwyno gan fyfyriwr a'i ganlyniad oedd Bi (isod) yn yr arholiad cyntaf.

B: Nid yw'r myfyriwr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y wobr ar hyn o bryd. Gall arholwyr argymhell y dylid cymryd un o'r camau gweithredu canlynol:

i) Cyfeiriwyd at ailgyflwyno: Nid yw'r myfyriwr ar hyn o bryd yn cyflawni meini prawf y dyfarniad y maent wedi'i gofrestru ar ei gyfer oherwydd diffygion sylweddol o ran cynnwys a/neu gyflwyniad fel y nodwyd gan yr arholwyr. Caniateir i'r myfyriwr adolygu ac ailgyflwyno'r traethawd ymchwil a chael ei ail-archwilio ar un achlysur arall, gyda neu heb voce viva. Dylai'r diwygiadau gofynnol gael eu cwblhau o fewn 12 mis ar y mwyaf.

Bydd pob arholwr yn cynnal yr ailarchwiliad.

Nid yw'r opsiwn hwn ar gael i arholwyr wrth ystyried traethawd ymchwil wedi'i ailgyflwyno gan fyfyriwr a'i ganlyniad oedd Bi yn yr arholiad cyntaf.

C: Nid yw'r myfyriwr yn derbyn y radd ac ni chaniateir ei ail-archwilio naill ai ar gyfer y wobr neu ddyfarniad arall.

14.2 Mewn achosion lle nad yw'r arholwyr yn gallu cytuno ar ganlyniad arholiad, bydd cadeirydd y bwrdd arholi yn ceisio cyfryngu trafodaethau rhwng yr arholwyr yn y lle cyntaf. Os na fydd cytundeb yn bosibl drwy'r drafodaeth hon, gellir gofyn am arholwr allanol cyflafareddol yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yng Nghanllaw Arholi'r Brifysgol.

14.3 Gall myfyriwr apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Arholi yn unol ag Adran 1 o Weithdrefn Apeliadau'r Brifysgol ar gyfer Graddau Ymchwil (neu gyfwerth).

14.4 Bydd y Brifysgol ond yn ystyried apeliadau ar un neu fwy o'r seiliau a amlinellir yn y Weithdrefn Apelio (Graddau Ymchwil Ôl-raddedig) neu gyfwerth. Ni fydd apeliadau sy'n cwestiynu dyfarniad academiaidd yr arholwyr yn dderbyniadwy.

14.5 Dim ond dau ymgais fydd gan fyfyrwyr i fynd i'r afael â chywiriadau, sy'n gyfystyr â thri chyflwyniad i gyd ac ni all myfyrwyr dderbyn yr un canlyniad â'r cyflwyniad blaenorol (gweler Ffigur 1 am siart llif o opsiynau yn erbyn nifer y cyflwyniadau).

14.6 Ni all unrhyw fyfyrwr sy'n derbyn canlyniad B:i) yn y lle cyntaf, dderbyn A:iii) ar gyfer yr ail gyflwyniad neu'r olaf. Os nad yw'r myfyriwr yn llwyddo i gael pàs o leiaf gyda mân ddiwygiadau (A:ii) ar ôl ailgyflwyno, yn dilyn canlyniad B:i), yna bydd yn derbyn canlyniad C (yn dibynnu ar arfarniad y bwrdd arholi).

14.7 Wrth lunio'r adroddiad terfynol ar ôl yr arholiad viva voce, dylai'r arholwyr roi canllawiau clir a manwl ynghylch y gwaith sy'n ofynnol gan y myfyriwr i fodloni'r gofynion gofynnol ar gyfer y dyfarniad.

14.8 Ar gyfer canlyniad (A:ii)), gall mân gywiriadau a diwygiadau gynnwys ychwanegu deunydd newydd, neu ddileu deunydd anghywir a/neu gamarweiniol ond ni ddylent fod angen ymestyn sylwedd yr ymchwil.

14.9 Ar gyfer canlyniad (B:ii)), pe bai'r arholwyr yn cytuno bod dyluniad a gweithrediad ymchwil y traethawd ymchwil yn ddiffygiol a/neu fod y traethawd ymchwil yn gofyn am ail-weithio sylweddol, gallant ganiatáu i'r myfyriwr ailgyflwyno'r traethawd ymchwil o fewn uchafswm o 24 mis. Dylai'r arholwyr fod yn fodlon bod tystiolaeth bod y myfyriwr yn gwybod beth mae'n ei wneud, bod y gwaith yn mynd i'r afael yn sylweddol â'r problemau neu'r materion a wnaed, ond bod ei weithredu yn y traethawd ymchwil yn gofyn am addasu graddfa y gellir ei chyflawni gan y myfyriwr o fewn y cyfnod. Rhaid i'r Bwrdd Arholi gadarnhau a oes angen Arholiad viva voce arall ar gyfer yr ailgyflwyno.

14.10 Mae pob argymhelliad gan y Bwrdd Arholi yn amodol ar gymeradwyaeth gan RDG y Brifysgol (neu gyfwerth).

14.11 Dim ond dau ymgais fydd gan fyfyrwyr i fynd i'r afael â chywiriadau, sy'n gyfystyr â thri chyflwyniad i gyd, ac ni all myfyrwyr dderbyn yr un canlyniad â'r cyflwyniad blaenorol.

Rheoliadau ar gyfer Cyflwyno Traethodau Ymchwil a'u Harholi

- [Terfynau Amser ac Estyniadau](#)

1. Y disgwyl yw y bydd ymgeiswyr yn cyflwyno eu traethodau ymchwil o fewn y terfyn amser a osodir gan y rheoliadau. Gall y Brifysgol atal ymgeisyddiaeth neu estyn terfyn amser, ond dim ond mewn achosion eithriadol.

2. Fel arfer caiff ataliadau/estyniadau eu caniatáu ar sail dosturiol yn unig, neu mewn achosion o salwch, anawsterau domestig difrifol, ymrwymadau proffesiynol gormodol neu anawsterau ymchwil na chawsant eu rhag-weld pan fo modd dangos eu bod wedi cael effaith niweidiol ar yr ymgeisydd. Rhaid cyflwyno achos llawn a rhesymegol, wedi ei gefnogi gan dystiolaeth feddygol addas neu dystiolaeth annibynnol arall, i'w ystyried gan y Brifysgol. Yn achos ymgeiswyr sy'n cyfeirio at ymrwymadau proffesiynol eithriadol, rhaid cyflwyno gyda'r cais gadarnhad a disgrifiad ysgrifenedig gan y cyflogwr o'r pwysau gwaith eithriadol sydd ar yr ymgeisydd.

3. Rhaid cyflwyno datganiad clir, yn dangos bod yr adran berthnasol wedi asesu'r sefyllfa y mae'r ymgeisydd ynddi a'i bod yn ystyried bod y cais am estyniad yn briodol. Dylai hwn gynnwys amserlen waith yn arwain at gyflwyno o fewn y terfyn amser estynedig a gynigir. Dylai'r ymgeisydd hefyd ddarparu datganiad ysgrifenedig.

4. Rhaid cyfeirio ceisiadau am ataliadau/estyniadau drwy oruchwylydd a Chyfadrn yr ymgeisydd i Ysgol y Graddedigion.

- [Cyflwyno ac Iaith y Traethawd Ymchwil](#)

5. Heb fod yn hwy na thri mis cyn y disgwylir cyflwyno, bydd yr ymgeisydd yn llenwi ffurflen Bwriad i Gyflwyno, a bydd hynny'n cychwyn y gweithdrefnau ar gyfer arholi, gan gynnwys yr Adran/Cyfadrn yn enwebu arholwr/arholwyr allanol. Disgwylir i arholwyr allanol gael eu penodi cyn cyflwyno. Bydd hyn yn sicrhau y gall y broses arholi ddechrau'n brydlon wedi cyflwyno.

6. At ddibenion yr arholiad, bydd ymgeiswyr yn cyflwyno copi electronig o'r traethawd ymchwil a fydd yn cynnwys:

i. crynodeb heb fod yn hwy na thri chant o eiriau;

ii. datganiad, wedi ei lofnodi gan yr ymgeisydd, yn dangos i ba raddau y mae'r gwaith a gyflwynir yn ganlyniad ymchwil yr ymgeisydd ei hun; cydnabyddir ffynonellau eraill gan droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau penodol. Rhaid cynnwys llyfryddiaeth llawn yn atodiad i'r gwaith;

iii. datganiad, wedi ei lofnodi gan yr ymgeisydd, i dystio nad yw'r gwaith eisoes wedi ei dderbyn yn ei hanfod am unrhyw radd, ac nad yw'n cael ei gyflwyno yr un pryd mewn ymgeisyddiaeth am unrhyw radd;

iv. datganiad wedi ei lofnodi ynghylch argaeledd y traethawd, yn nodi bod y traethawd ymchwil, os bydd yn llwyddiannus, ar gael i'w adneuo yng nghadwrfa ymchwil electronig y brifysgol ac ar gyfer ei fenthyg yn rhyng-lyfrgellol neu i'w lun-gopiö (yn ddarostyngedig i gyfraith hawlfraint), naill ai ar unwaith neu ar ôl diwedd unrhyw waharddiad neu embargo; ac y gellir trefnu bod y teitl a'r crynodeb ar gael i gyrff allanol. Os oes gweithiau creadigol yn rhan o'r cyflwyniad, dim ond y sylwebaeth feirniadol fydd yn cael ei chyhoeddi fel arfer. Bydd teitl a chrynodeb o'r traethawd ymchwil ar gael am ddim.

7. Mae ymgeisydd yn rhydd i gyhoeddi'r cyfan neu ran o'r gwaith a gynhyrchir yn ystod cyfnod cofrestru'r ymgeisydd yn y Brifysgol cyn ei gyflwyno fel traethawd ymchwil cyfan, neu ran o

draethawd ymchwil. Gellir ymgorffori'r cyfryw waith cyhoeddedig yn y traethawd ymchwil a gyflwynir i'r Brifysgol yn nes ymlaen.

8. Caiff unrhyw ymgeisydd sy'n dilyn cynllun astudio neu ymchwil yn y Brifysgol ddewis cyflwyno traethawd ymchwil neu waith arall yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'n ofynnol i ymgeisydd sy'n dymuno cael ei asesu neu ei hasesu mewn iaith (h.y. y Gymraeg neu'r Saesneg) heblaw prif iaith yr hyfforddi/asesu ar gyfer y cynllun o dan sylw hysbysu Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg erbyn y dyddiad cau a bennir gan y Brifysgol. Yna dylai'r swyddog enwebedig gysylltu â Chadeirydd y Bwrdd Arholi ynghylch y canlynol:

i. y cyfryw drefniadau y bydd eu hangen o bosibl (e.e. darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd) ar gyfer yr arholiad llafar;

ii. y trefniadau angenrheidiol, y mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo – ar gais Cadeirydd y Bwrdd Arholi – gan yr arholwr neu'r arholwyr, ar gyfer cyfieithu a/neu farcio'r gwaith;

iii. cyflogi person neu bersonau addas i weithredu fel arholwr neu arholwyr ymgynghorol neu – am ffi gymeradwyedig – fel cyfieithydd neu gyfieithwyr.

9. Ar adegau, gellir barnu ei bod yn briodol cyflwyno traethawd ymchwil mewn iaith heblaw'r Gymraeg / Saesneg am resymau ysgolheigaidd. Yn y cyfryw achosion, gall Pennaeth Ysgol y Graddedigion ganiatáu cyflwyniad o'r fath, lle bydd achos rhesymedig wedi ei wneud i'w gymeradwyo, fel rheol cyn i'r ymgeisydd gofrestru ar gyfer astudio. Rhaid i'r adran amlinellu trefniadau addas ar gyfer goruchwylio ac arholi'r traethawd ymchwil er mwyn cadarnhau na fydd cyfaddawdu ar ansawdd profiad dysgu'r myfyriwr na safonau'r dyfarniad. Ni chymeradwyir ceisiadau sy'n seiliedig ar ddiffyg gallu'r ymgeisydd i gynhyrchu gwaith i'w gyflwyno yn naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg.

10. Disgwylir i ymgeiswyr sy'n ailgyflwyno traethawd ymchwil sydd wedi methu â bodloni'r arholwyr o'r blaen ailgyflwyno dau eu traethawd ymchwil diwygiedig ynghyd â'r dogfennau hynny a nodir ym mharagraff 6 uchod.

11. Ceir cyfarwyddiadau manwl ar gyflwyno'r traethodau ymchwil yn y Canllawiau a roddir i ymgeiswyr sydd ar fin cyflwyno eu traethawd ymchwil.

12. Os yw'n fodlon bod achos prima facie dros gyfeirio'r traethawd ymchwil i'w arholi'n fanwl, bydd Ysgol y Graddedigion sicrhau bod y traethawd ymchwil ar gael i'r ddau arholwr. Ni ddylai'r adran na'r ymgeisydd anfon y traethawd ymchwil yn syth at yr arholwr. Mae hyn yn wir hefyd yn achos ailgyflwyno.

13. Ni chaiff ymgeisydd ddiwygio'r traethawd ymchwil, ychwanegu ato na dileu ohono ar ôl ei gyflwyno.

- [Cyfansoddiad y Bwrdd Arholi](#)

14. Bydd pob Bwrdd Arholi yn cynnwys:

- Cadeirydd;
- Arholwr allanol;
- Naill ai arholwr mewnol neu ail arholwr allanol.

15. Yn achos arholi ymgeisydd sy'n aelod o'r staff, bydd dau arholwr allanol ac ni fydd arholwr mewnol. Bydd y rheoliad hwn yn gymwys i ymgeiswyr a oedd yn aelodau o staff yn ystod eu cyfnod cofrestru, a hefyd i'r rheini sy'n dod yn aelodau o staff ar ôl cwblhau cofrestriad myfyriwr

ond cyn cyflwyno. Diben hyn yw sicrhau bod yr arholwyr yn wrthrychol, ac yn cael eu gweld felly, ac er mwyn osgoi unrhyw anawsterau y gallai'r ymgeisydd neu'r arholwr eu hwynebu os ydynt yn gyd-weithwyr. Pan mae ymgeiswyr wedi dod yn aelodau o'r staff ar ôl cofrestrriad fel myfyriwr, a phan mae natur neu leoliad eu cyflogaeth yn golygu y byddai arholwr mewnol a gynigir yn amlwg yn wrthrychol, gellir cyflwyno'r achos i Bennaeth Ysgol y Graddedigion y dylid cynnal yr arholiad gydag un arholwr mewnol ac un arholwr allanol.

16. Bydd ymgeiswyr sydd, neu sydd yn dyfod ar adeg cyflwyno, yn aelodau o staff mewn sefydliad neu Brifysgol arall yn cael eu harholi fel yn achos ymgeisyddiaethau myfyriwr (h.y. fel arfer gydag un arholwr allanol ac un arholwr mewnol).

17. Gall Penaethiaid Adrannau enwebu aelod uwch o'u staff academiaidd i weithredu fel Cadeirydd Bwrdd Arholi. Pan fo Pennaeth Adran/Athrofa hefyd yn oruchwylydd i'r ymgeisydd o dan sylw, rhaid iddynt ddirprwyo'r dasg hon. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn annibynnol yn y broses arholi, a bydd yn gyfrifol am y modd y cynhelir yr arholiad. Bydd y Cadeirydd:

- fel arfer yn Uwch-ddarlithydd neu'n uwch neu â phrofiad addas ar gyfer y rôl;
- fel arfer yn dod o adran(nau) y myfyriwr, ond gellir ei ddewis o adran arall os na ellir canfod unrhyw un addas, er enghraifft, oherwydd gwrthdaro buddiannau neu'r angen am siaradwr Cymraeg;
- yn brofiadol yn goruchwyllo ac arholi ymgeiswyr PhD;
- yn gyfarwydd â'r rheoliadau ar gyfer arholiadau llafar ar draethodau ymchwil.

18. Bydd yr arholwr/arholwyr allanol yn cael ei benodi/eu penodi yn unol â darpariaethau Llawlyfr Ansawdd Academiaidd y Brifysgol. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o natur a phwrpas y radd yr arholir yr ymgeisydd ar ei chyfer a meddu ar wybodaeth arbenigol ac arbenigedd yn nhestun yr ymchwil. Amlinellir meini prawf eraill ar gyfer eu penodi yn y Llawlyfr.

19. Ni ddylid penodi arholwyr allanol y bu ganddynt gysylltiad helaeth â'r ymgeisydd. Mewn achosion lle bu cysylltiad helaeth, dylid rhoi gwybod am fanylion natur y cysylltiad i Ysgol y Graddedigion ei ystyried yn ystod y broses benodi. Ceir rhagor o wybodaeth yn y canllawiau ar gyfer byrddau arholi a'r ffurflen Bwriad i Gyflwyno.

20. Dylai'r arholwr mewnol fel arfer:

- fod yn aelod o staff o adran(nau) y myfyriwr, ond gellir ei ddewis o adran gytras lle bo hynny'n addas neu'n ofynnol.
- fod â PhD;
- fod â phrofiad o oruchwyllo o leiaf un myfyriwr PhD hyd at gwblhau'n llwyddiannus.

21. Os, o dan amgylchiadau eithriadol, y bydd yn amhosibl penodi arholwr mewnol addas o'r Brifysgol, gall Ysgol y Graddedigion gymeradwyo penodi ail arholwr allanol yn lle arholwr mewnol, wedi'i enwebu gan yr Adran. Dylid bod wedi cymryd pob cam i benodi arholwr mewnol cyn i ail arholwr allanol gael ei ystyried.

22. Ni cheir penodi goruchwyllydd yr ymgeisydd yn arholwr mewnol, er y caiff, gyda chaniatâd yr ymgeisydd ymlaen llaw, gael ei wahodd gan Gadeirydd y Bwrdd Arholi i fod yn bresennol yn yr arholiad llafar mewn capasiti ymgynghorol.

23. Gall Cadeirydd y Bwrdd Arholi wahodd unigolion addas eraill i fynychu'r arholiad llafar mewn capasiti ymgynghorol.

24. Dylai'r arholwyr gael traethawd ymchwil yr ymgeisydd ac unrhyw ddeunyddiau cysylltiedig a'r canllawiau sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal yr arholiad. Gofynnir i'r Cadeirydd, a'r arholwyr, nodi bod y Brifysgol yn disgwyl, fel arfer, y dylid cwblhau arholi'r ymgeisydd o fewn cyfnod o ddeuddeg wythnos waith o ddyddiad anfon y traethawd ymchwil i'r arholwyr.

- [Ymddygiad Academaidd Annerbyniol](#)

25. Un o ddibenion yr arholiad llafar yw pennu mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r traethawd ymchwil. Os amheuir ei bod yn bosibl bod ymddygiad academaidd annerbyniol wedi digwydd mewn traethawd ymchwil a gyflwynwyd, dylid ei gyfeirio at y Gofrestrfa Academaidd. Os bydd hyn yn digwydd cyn yr arholiad llafar, gellir gohirio'r arholiad hwnnw nes bod yr honiad o ymddygiad academaidd annerbyniol wedi'i ddatrys. Os bydd y Bwrdd Arholi, yn ystod yr arholiad llafar, yn amau ymddygiad academaidd annerbyniol, gellir oedi'r canlyniad tra cynhelir ymchwiliad. Dylai unrhyw ymddygiad academaidd annerbyniol a amheuir wedi i ganlyniad gael ei gyhoeddi neu wedi i'r radd gael ei dyfarnu gael ei gyfeirio i'r Gofrestrfa Academaidd hefyd. Gall canlyniadau a dyfarniadau gael eu diddymu os canfyddir bod ymddygiad academaidd annerbyniol wedi digwydd.

- [Cynnal yr Arholiad](#)

26. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Arholi gynnal arholiad llafar ar gyfer ymgeiswyr ym mhob achos ac eithrio pan fydd traethawd ymchwil sydd wedi'i ailgyflwyno yn cael ei arholi. Dan yr amgylchiad hwn, gellir hepgor y gofyniad hwn ar ddisgresiwn y Bwrdd Arholi os yw wedi dod i'r farn fod y traethawd ymchwil yn amlwg yn cyrraedd y safon i basio heb newidiadau, neu â chywiriadau neu newidiadau mân iawn yn unig. Mewn amgylchiadau eraill eithriadol, gellir hepgor arholiad llafar ar gyfer ailgyflwyniad gyda chymeradwyaeth y Bwrdd Arholi a Phennaeth Ysgol y Graddedigion. Bydd y Cadeirydd yn cynghori'r ymgeisydd ynghylch y trefniadau a wnaed ar gyfer yr arholiad llafar.

27. Rhaid i'r unigolion canlynol fod yn bresennol yn yr arholiad llafar:

- i. Y Cadeirydd;
- ii. Yr Arholwr/Arholwyr Allanol;
- iii. Yr Arholwr/Arholwyr Mewnol os oes angen un.

28. Rhaid i'r arholiad llafar gael ei gynnal fel arfer yn y Brifysgol. Fodd bynnag, gall Pennaeth Ysgol y Graddedigion, dan amgylchiadau eithriadol, ganiatáu i arholiad llafar gael ei gynnal yn rhywle arall. Ni ddylai arfer o'r fath, fodd bynnag, fod yn fwy costus na chynnal arholiad llafar yn y Brifysgol ei hun.

29. Gyda chymeradwyaeth Pennaeth Ysgol y Graddedigion, gellir cynnal arholiad llafar trwy ddulliau electronig. Bydd canllawiau manwl ar y broses gymeradwyo a'r protocolau ar gyfer cynnal yr arholiad ar gael o'r Gofrestrfa Academaidd.

30. Gall myfyrwyr hefyd dynnu sylw'r Bwrdd Arholi at unrhyw amgylchiadau arbennig a allai effeithio ar eu perfformiad yn ystod yr arholiad llafar neu sydd wedi effeithio ar y traethawd ymchwil. Dylid nodi'r rhain ar y ffurflen Bwriad i Gyflwyno lle bo hynny'n bosibl. Yna bydd yr Ysgol Graddedigion yn ymgynghori â Cymorth i Fyfrwyr a Chadeirydd y Bwrdd fel y bo'n briodol i roi addasiadau ar waith a briffio'r arholwyr.

31. Dim ond pan wahoddir ef/hi i wneud hynny gan y Cadeirydd y caniateir i oruchwylydd sy'n bresennol mewn arholiad llafar siarad.

32. Bydd gan oruchwylydd neu oruchwylwyr yr ymgeisydd yr hawl i fynegi wrth Gadeirydd y Bwrdd Arholi unrhyw bryderon sy'n berthnasol i brosiect ymchwil yr ymgeisydd, i'r traethawd ymchwil sy'n deillio o'r prosiect hwnnw neu i'r arholiad ar y traethawd ymchwil, y mae'r goruchwylydd neu'r goruchwylwyr yn credu y dylai'r Bwrdd eu cymryd i ystyriaeth cyn dod i'w benderfyniad. Bydd y goruchwylydd neu'r goruchwylwyr yn mynegi'r pryderon hyn, yn ysgrifenedig, i'r Cadeirydd a'r ymgeisydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r traethawd ymchwil gael ei gyflwyno a, sut bynnag, yn ddigon cynnar i ganiatáu digon o amser i'r ymgeisydd ystyried y pwyntiau a wnaed a pharatoi ymateb cyn i'r traethawd ymchwil gael ei arholi (gan gynnwys unrhyw arholiad llafar).

33. Cyfrifoldeb Cadeirydd y Bwrdd Arholi fydd sicrhau bod yr ymgeisydd yn fodlon â'r amser a ganiateir i ystyried y pwyntiau a wnaed gan y goruchwylydd neu'r goruchwylwyr, ac i ymateb iddynt, a sicrhau datganiad ysgrifenedig swyddogol gan yr ymgeisydd yn cadarnhau hyn.

34. Bydd y Bwrdd Arholi yn ystyried unrhyw gyflwyniad ysgrifenedig i'r Cadeirydd gan oruchwylydd neu oruchwylwyr yr ymgeisydd ac unrhyw ymateb gan yr ymgeisydd yn unol â'r darpariaethau yn union uchod.

35. Ni fydd yr arholiad llafar yn cael ei recordio.

36. Ar ôl cwblhau'r arholi, bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y ffurflen adroddiad dros dro a'r canlyniad yn cael eu cwblhau ac y rhoddir copi ohoni i'r myfyriwr. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod y ffurflen Adroddiad a Chanlyniad a'r adroddiad dros dro yn cael eu cwblhau a bod Ysgol y Graddedigion yn cael gwybod y canlyniad. Bydd y ffurflen Adroddiad a Chanlyniad yn cynnwys adroddiad yr arholwr allanol (gan gynnwys adroddiad ar yr arholiad llafar), adroddiad yr arholwr mewnol, adroddiad arholwyr ar y cyd (os mynnir) ac argymhelliad ffurfiol y Bwrdd Arholi o'r canlyniad. Rhaid i daflen yr argymhelliad ffurfiol o'r canlyniad gofnodi union benderfyniad y Bwrdd Arholi a rhaid iddi gael ei llofnodi gan y Cadeirydd, yr arholwr/arholwyr allanol a'r arholwr/arholwyr mewnol, ond nid gan unrhyw berson sy'n bresennol mewn capasiti ymgynghorol.

37. Os oes angen ailarholi'r traethawd ymchwil neu wneud cywiriadau, y Cadeirydd sy'n gyfrifol am drefnu casglu a darparu adborth i'r ymgeisydd a'r goruchwylydd adeg yr arholiad llafar, neu yn fuan wedyn.

38. Wedi iddi dderbyn y ffurflen Adroddiad a Chanlyniad wedi'i chwblhau, a, lle bo'n addas, cadarnhad bod yr holl gywiriadau sy'n ofynnol wedi'u gwneud, bydd y Gofrestrfa Academaidd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd beth yw'r canlyniad terfynol.

39. Rhaid dychwelyd pob copi o draethawd ymchwil sydd wedi methu i'r ymgeisydd unwaith y bo'r broses arholi (a gwrandawriad unrhyw achos apêl yn sgil hynny) wedi ei chwblhau.

- [Argymell am ddyfarniad](#)

42. Gall Byrddau Arholi argymell un o'r opsiynau canlynol:

- [Yn achos ymgeiswyr ar gyfer Gradd PhD](#)

a. bod yr ymgeisydd yn cael ei gymeradwyo ar gyfer gradd PhD ar yr amod ei fod yn cwblhau unrhyw fân gywiriadau sy'n ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Dylai cywiriadau gael eu cwblhau o fewn

cyfnod o bedair wythnos waith o ddyddiad hysbysu'r ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad. Gall y Bwrdd fynnu bod y cywiriadau'n cael eu harchwilio gan y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, cyn i'r broses ddyfarnu gael ei chychwyn.

b. bod yr ymgeisydd yn cael ei gymeradwyo ar gyfer gradd PhD ar yr amod ei fod yn cwblhau unrhyw gywiriadau a newidiadau sy'n ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Rhaid i gywiriadau a newidiadau gael eu cwblhau o fewn cyfnod o hyd at chwe mis o ddyddiad hysbysu'r ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad. Gall y Bwrdd fynnu bod y cywiriadau'n cael eu harchwilio gan y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, cyn i'r broses ddyfarnu gael ei chychwyn.

c. * na chymeradwyir bod yr ymgeisydd yn cael gradd PhD ond y caniateir iddo addasu'r traethawd ymchwil a'i ailgyflwyno am radd PhD ar un achlysur arall, gan dalu ffi ailgyflwyno. Gellir caniatáu un cyfle i ymgeisydd ailgyflwyno'r gwaith. Dylai'r ailgyflwyno ddigwydd o fewn cyfnod heb fod yn hwy na deuddeg mis. Bydd y broses gyflwyno ac arholi yr un fath ag yr oedd ar gyfer y cyflwyno cyntaf.

d. na chymeradwyir bod yr ymgeisydd yn cael gradd PhD, ond yn hytrach ei fod yn cael ei gymeradwyo am radd MPhil ar yr amod ei fod yn cwblhau unrhyw fân gywiriadau sy'n ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Dylai cywiriadau gael eu cwblhau o fewn cyfnod o bedair wythnos waith o ddyddiad hysbysu'r ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad. Gall y Bwrdd fynnu bod y cywiriadau'n cael eu harchwilio gan y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, cyn i'r broses ddyfarnu gael ei chychwyn.

e. * na chymeradwyir bod yr ymgeisydd yn cael gradd PhD ond y caniateir iddo addasu'r traethawd ymchwil a'i ailgyflwyno am radd MPhil, gan dalu ffi ailgyflwyno. Gellir caniatáu un cyfle i ymgeisydd ailgyflwyno'r gwaith. Dylai'r ailgyflwyno ddigwydd o fewn cyfnod heb fod yn hwy na blwyddyn o ddyddiad hysbysu'r ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad.

f. na chymeradwyir bod gradd yn cael ei dyfarnu i'r ymgeisydd.

* Nid yw'r opsiynau hyn ar gael yn achos ymgeiswyr sydd wedi ailgyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi.

- [Yn achos ymgeiswyr ar gyfer gradd MPhil](#)

a. bod yr ymgeisydd yn cael ei gymeradwyo ar gyfer y radd yr oedd yn ei cheisio ar yr amod ei fod yn cwblhau unrhyw fân gywiriadau sy'n ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Dylai cywiriadau gael eu cwblhau o fewn cyfnod o bedair wythnos waith o ddyddiad hysbysu'r ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad. Gall y Bwrdd fynnu bod y cywiriadau'n cael eu harchwilio gan y naill arholwr neu'r llall, neu'r ddau, cyn i'r broses ddyfarnu gael ei chychwyn.

b. bod yr ymgeisydd yn cael ei gymeradwyo ar gyfer y radd yr oedd yn ei cheisio ar yr amod ei fod yn cwblhau unrhyw gywiriadau a newidiadau sy'n ofynnol gan y Bwrdd Arholi. Rhaid i gywiriadau/newidiadau gael eu cwblhau o fewn cyfnod o ddeuddeg wythnos waith o ddyddiad hysbysu'r ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad.

c. * na chymeradwyir bod yr ymgeisydd yn cael y radd yr oedd yn ei cheisio ond y caniateir iddo addasu'r traethawd ymchwil a'i ailgyflwyno, gan dalu ffi ailgyflwyno. Gellir caniatáu un cyfle i ymgeisydd ailgyflwyno'r gwaith. Dylai'r ailgyflwyno ddigwydd o fewn cyfnod heb fod yn hwy na blwyddyn o ddyddiad hysbysu'r ymgeisydd yn swyddogol o ganlyniad yr arholiad.

d. na chymeradwyir dyfarnu gradd MPhil i'r ymgeisydd.

* Nid yw'r opsiynau hyn ar gael yn achos ymgeiswyr sydd wedi ailgyflwyno traethawd ymchwil ar gyfer ei arholi.

- [Arholwr Cymrodeddol](#)

43. Pan fydd anghydfod yn codi rhwng yr arholwr allanol a'r arholwr/arholwyr mewnol neu'r ddau arholwr allanol, dylai'r Arholwyr a'r Cadeirydd farcio'r ffurflen Adroddiad a Chanlyniad arferol er mwyn dangos nad yw'r Bwrdd wedi gallu cytuno ar argymhelliad. Mewn achos o'r fath bydd Pennaeth Ysgol y Graddedigion yn troi at arholwr allanol arall, a gofynnir iddo/iddi gymrodeddu. Wrth ddewis Arholwr Allanol Cymrodeddol, bydd yn rhaid i Bennaeth Ysgol y Graddedigion ystyried unrhyw adroddiadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan aelodau'r Bwrdd Arholi a gallant ystyried hefyd unrhyw enwebiad a wnaed gan y Bwrdd gwreiddiol, er na fydd yn rhaid iddynt fod yn rhwym wrth yr enwebiad hwnnw.

44. Wrth gael ei benodi/phenodi, rhoddir i Arholwr Allanol Cymrodeddol gopi o waith yr ymgeisydd ynghyd ag adroddiadau'r arholwyr gwreiddiol a'r 'Ffurflen Adroddiad a Chanlyniad' a 'Nodiadau ar gyfer Arholwyr Allanol Cymrodeddol'. Wrth ystyried gwaith yr ymgeisydd, gall Arholwr Allanol Cymrodeddol ddewis a yw'n cyfeirio at adroddiadau'r arholwyr gwreiddiol ai peidio (ac os ydyw, pryd y mae'n gwneud hynny). Gall hefyd ddewis cynnal arholiad llafar pellach ac, os yw'n gwneud hynny, a fydd yr arholwyr gwreiddiol yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol ai peidio.

45. Pan fydd yr Arholwr Allanol Cymrodeddol wedi gorffen ystyried y gwaith, dylid rhoi gwybod am y canlyniad i Gadeirydd y Bwrdd Arholi, yn y lle cyntaf. Bydd y Cadeirydd yn trefnu i'r 'Ffurflen Adroddiad a Chanlyniad' gael ei chwblhau, ei llofnodi a'i dychwelyd i'r Swyddfa Ansawdd a Chofnodion Academaidd.

- [Gweithdrefn Apelio](#)

46. Gall ymgeiswyr nad yw'r Bwrdd Arholi yn argymhell dyfarnu iddynt y radd y bu iddynt gyflwyno eu traethawd ymchwil ar ei chyfer apelio yn erbyn y penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion yn rhoi gwybod iddynt beth yw'r weithdrefn apelio.

- [Mynediad i Draethodau Ymchwil](#)

47. Bydd dau gopi o bob gwaith a gymeradwyir gan yr arholwyr yn dod yn eiddo i'r Brifysgol. Rhaid i'r Cadeirydd drefnu i un copi caled o draethawd ymchwil llwyddiannus gael ei adneuo yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, ac i ail gopi gael ei adneuo yn Llyfrgell y Brifysgol. Yn ogystal â'r cyfrolau rhwymedig parhaol sy'n cael eu hadneuo yn y llyfrgelloedd, rhaid i ymgeiswyr ddarparu copi electronig o'r fersiwn derfynol o'r traethawd ymchwil i'w adneuo yng Nghadwrfa Ymchwil y Brifysgol. Bydd traethodau ymchwil a metadata traethodau ymchwil a adneuir yn y modd hwnnw yn cael eu darparu gan y Brifysgol i gadwrfeydd allanol gan gynnwys casgliad digidol Llyfrgell Genedlaethol Cymru a databas y Llyfrgell Brydeinig o draethodau ymchwil y DU.

48. Disgwylir i'r ymgeisydd lofnodi datganiad yn nodi bod y copi electronig a adneuwyd yn y gadwrfa electronig yn union yr un fath o ran ei gynnwys â'r un a adneuwyd yn y Llyfrgell, a bod yr ymgeisydd wedi cael y caniatâd hawlfraint addas i gynnwys unrhyw gynnwys gan drydydd parti yn y traethawd ymchwil fel y gellir darparu'r gwaith yn gyfreithlon mewn cadwrfa mynediad agored. Dylai deunydd a dderbynnir ar gyfer y gadwrfa gydymffurfio â chanllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y Gwasanaethau Gwybodaeth.

49. Fel arfer bydd copi caled o draethawd ymchwil a gyflwynwyd am un o raddau uwch y Brifysgol ar gael yn agored ac ni fydd yn destun unrhyw ddiogelwch na chyfyngu ar fynediad iddo. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr wneud cais am naill ai atal llungopïo a/neu fynediad i'r traethawd ymchwil am gyfnod penodedig o hyd at bum mlynedd, neu iddo beidio â bod ar gael yng Nghadwrfa Ymchwil y Brifysgol. Rhaid i unrhyw argymhelliad i atal fynediad gael ei wneud i'r Brifysgol trwy gyfrwng y Pwyllgor Graddau Ymchwil neu ei Gadeirydd, gan yr Athrofa ar ôl ystyried cais gan oruchwylydd yr ymgeisydd, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig. Cyfrifoldeb y goruchwylydd fydd gwneud y cais cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod adeg cofrestru cynllun ymchwil yr ymgeisydd. Rhaid i'r argymhelliad gynnwys datganiad o'r seiliau y gwneir y cais arnynt. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau fel hyn yn cael eu gwneud ar sail sensitifrwydd masnachol yr ymchwil, sydd o bosibl wedi'i noddi'n rhannol gan gorff masnachol neu ddiwydiannol.

50. Yn dilyn arholiad llwyddiannus, rhaid i Gadeirydd y Bwrdd Arholi roi gwybod i Lyfrgellydd y Brifysgol, y Llyfrgell Genedlaethol a'r Gadwrfa Ymchwil na chaniateir fynediad i'r gwaith am gyfnod penodedig. Bydd y cyfnod a gymeradwyir yn cael ei gyfrifo o'r dyddiad pan fydd y Brifysgol yn rhoi gwybod yn swyddogol i'r ymgeisydd ei fod ef/hi wedi cymhwyso am radd. Pan fo fynediad i draethawd ymchwil wedi'i atal, ni fydd yn cael ei adneuo yng Nghadwrfa Ymchwil y Brifysgol nac yn unrhyw gadwrfa electronig fynediad agored arall hyd nes y daw'r cyfnod atal fynediad i ben.

51. Gall yr Athrofa gymeradwyo cais gan y myfyriwr na ddylai'r traethawd ymchwil fod ar gael yng Nghadwrfa Ymchwil y Brifysgol. Dylid datgan hyn yn glir yn y datganiadau sy'n cyd-fynd â'r traethawd ymchwil. Nid yw hyn gyfystyr ag atal fynediad i'r traethawd ymchwil.

- [Derbyn i Radd](#)

52. Gall ymgeiswyr sydd wedi cymhwyso ar gyfer graddau uwch gael eu derbyn i'w graddau unwaith y mae'r arholiad wedi'i gwblhau a bod y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion wedi derbyn argymhelliad y Bwrdd Arholi i ddyfarnu'r radd – ar y ffurflen Adroddiad a Chanlyniad – ynghyd â chadarnhad bod yr holl gywiriadau oedd yn ofynnol wedi'u cwblhau a bod yr arholwyr yn fodlon arnynt.

Canllawiau ar gyfer Cynnal Arholiadau Viva Voce trwy Ddull Electronig (Viva Voce Ar-lein)

(Drafft a Ddiwygiwyd ym mis Hydref 2021).

Egwyddorion Cyffredinol

1. Ar ôl trafod â staff a myfyrwyr, barn y Brifysgol yw mai'r ffordd orau i gynnal y viva voce, sef yr arholiad llafar sy'n angenrheidiol ar gyfer pob gradd ymchwil, yw gwneud hynny wyneb yn wyneb, a chael pawb yn bresennol gyda'i gilydd yn Aberystwyth. Mae hyn yn sicrhau uniondeb yr arholiad ac yn creu'r amgylchiadau mwyaf ffafriol i fyfyrwyr gyfiawnhau eu gwaith. Mae'r arholiad llafar yn fwy na mater o ffurf, a gall gael effaith sylweddol ar ganlyniad yr asesiad.

2. Cyn cyfnod Covid-19, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateid defnyddio arholiadau llafar electronig, yn ddibynol ar rai amodau a chyda chymeradwyaeth Pennaeth Ysgol y Graddedigion a chaniatâd ysgrifenedig pawb sy'n ymwneud â'r arholiad. Yn ystod cyfnod Covid-19, oherwydd anhawster cynllunio a chynnal arholiadau llafar a olygai teithio i Aberystwyth, trefnu mesurau priodol iechyd a diogelwch i weithgareddau wyneb yn wyneb, a phwysigwydd arholi'n amserol, daeth cynnal arholiadau llafar ar-lein yn ddewis diodyn.

3. Ar y cyfan, bu'r profiad o gynnal yr arholiadau hyn ar-lein yn un cadarnhaol. Daeth staff a myfyrwyr yn fwy cyfarwydd â'r dechnoleg ac mae manteision i'w defnyddio, am eu bod yn torri ar gostau ariannol ac amgylcheddol ac yn rhoi mwy o gyfle i gynnal yr arholiadau'n brydlon a chyda'r arholwr allanol mwyaf addas. Er bod y Pwyllgor Graddau Ymchwil o'r farn mai arholiad llafar wyneb yn wyneb yw'r profiad gorau, y mae'n fwy parod i ganiatáu cynnal yr arholiadau ar-lein os yw pawb sydd yn rhan o'r drefn yn hapus â hynny. Mae angen cymeradwyaeth Pennaeth Ysgol y Graddedigion o hyd, a rhaid cyflwyno achos o blaid cynnal yr arholiad ar-lein, ond does dim rhaid i'r amgylchiadau fod yn rhai eithriadol.

4. Gellir gwneud cais i gynnal arholiad llafar ar-lein os mai hynny sydd orau gan bawb ac nad oes gan unrhyw un bryder am y dull o'i gynnal ac:

I. Os yw costau, teithio neu faterion eraill yn gwneud yr arholiad electronig yn fwy manteisiol, yn enwedig lle byddai'n anodd cynnal arholiad wyneb yn wyneb, neu pe byddai oedi annerbyniol fel arall.

II. Os bu'n rhaid rhoi'r gorau i drefniadau i gynnal arholiad llafar wyneb yn wyneb oherwydd amgylchiadau annisgwyl, megis tywydd gwael iawn neu salwch. Byddai'r arholiad yn cael ei ohirio fel arfer, ond byddai defnyddio dull electronig yn ddewis gwell na rhoi'r myfyriwr mewn sefyllfa anfanteisiol iawn.

III. Os oes dyfarniad ar y cyd neu ddyfarniad deuol yn cael ei gynnig a bod staff o'r partner brifysgol yn ymuno yn yr asesiad.

Technoleg

5. Microsoft Teams yw'r brif dechnoleg sy'n cael ei chynnal yn y Brifysgol a dyma'r hyn a ddefnyddir i arholiadau llafar fel arfer. Os nad yw hi'n bosibl defnyddio Teams, er enghraifft os yw myfyriwr yn byw mewn gwlad lle nad oes modd defnyddio Teams, gellid defnyddio technoleg arall, er enghraifft Zoom, ond nid oes modd i'n Gwasanaethau Gwybodaeth roi cymorth technegol i hyn yn yr un ffordd. Os oes data neu bynciau sensitif yn cael eu trafod, mae diogelwch yn ystyriaeth bwysig. Mae'n hanfodol bod y dechnoleg yn ddibynadwy er mwyn gallu cynnal yr arholiad yn ddidrafferth. Efallai y byddwn yn ymgynghori â Gwasanaethau Gwybodaeth i sicrhau bod technoleg benodol yn dderbyniol.

Cynnal yr Arholiad

6. Staff y Gofrestrfa Academaidd ym Mhrifysgol Aberystwyth fydd yn trefnu manylion a dyddiad yr arholiad. Anfonir apwyntiad calendr at bawb sy'n rhan o'r arholiad ar gyfer ymuno â'r cyfarfod. Gall yr Uned Datblygu Dysgu ac Addysgu gynorthwyo yn hyn o beth.

7. Rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr arholiad yn cael ei gynnal yn hwylus heb i unrhyw beth dorri ar ei draws, ac mor debyg â phosibl i gyfarfod wyneb yn wyneb. Mae angen ystyried y pwyntiau ymarferol canlynol wrth drefnu arholiad llafar electronig:

I. Polisi PA yw peidio â recordio arholiadau llafar a rhaid dweud hyn yn glir wrth bawb sy'n rhan o'r arholiad. Rhaid diffodd unrhyw adnodd recordio neu, gan na ellir gwneud hynny yn Teams heb gyfyngu'r gallu i rannu sgrin, rhaid i'r Cadeirydd wneud yn sicr nad yw'r adnodd recordio ymlaen (bydd yn gwbl amlwg os yw'r adnodd recordio ymlaen).

II. Dylai pob un ganfod lleoliad ac adnoddau addas lle gallant gael cyswllt o ansawdd da trwy gydol yr arholiad, lle gallant fod yn gyfforddus, a lle na fydd unrhyw un yn torri ar eu traws. Os nad yw hyn yn bosib o'u cartrefi na'u swyddfeydd, dylent ystyried defnyddio adnoddau addas mewn prifysgol arall, swyddfeydd y Cyngor Prydeinig, neu leoliadau cydnabyddedig eraill. Yn aml, mewn lleoliadau o'r fath fe fydd staff technegol profiadol sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg mewn amgylchiadau diogel. Gall Gwasanaethau Gwybodaeth roi cyngor am y dewisiadau sydd ar gael. Gall myfyrwyr ddefnyddio adnoddau PA. Os yw myfyrwyr yn gwneud cais i gymryd rhan o bell mewn arholiad llafar y gellid bod wedi'i gynnal yn Aberystwyth, rhaid iddynt dalu unrhyw gostau sy'n codi, er enghraifft pris llogi ystafell.

III. Rhaid i ansawdd y llun a'r sain fod yn ddigon da i gynnal sgwrs ac, os mai'r myfyriwr sy'n ymuno o bell, i fod yn sicr y gellir adnabod y myfyriwr a sicrhau bod y myfyriwr cywir yn cymryd yr arholiad. Os nad yw staff yr arholiad yn adnabod yr ymgeisydd rhaid gwahodd aelod o staff i gadarnhau bod y myfyriwr iawn yn yr arholiad.

IV. Os yw'r ymgeisydd yn ymuno o bell ac os nad oes aelod o'r bwrdd arholi nac arolygwr yn yr un lleoliad, rhaid atgoffa'r myfyriwr y dylai fod ar ei ben/phen ei hun a, chyn belled â phosibl, rhaid i weddill y rhai sy'n rhan o'r arholiad allu gweld hyn yn glir.

V. Er y gall trafferthion munud olaf olygu bod rhaid gwneud cais am ddefnyddio dulliau electronig, yr arfer gorau yw profi'r system ymlaen llaw - yn ddefnyddol o leiaf wythnos ymlaen llaw - er mwyn gallu datrys unrhyw drafferthion ac er mwyn i bawb ymglyfarwyddo cymaint ag y gallant â'r dechnoleg.

VI. Mae amrywiadau sylweddol rhwng hyd gwahanol arholiadau llafar ac mae rhannau o'r arholiad na fydd yr ymgeisydd yn cymryd rhan ynddynt. Rhaid cadw hyn mewn cof wrth drefnu sesiwn er mwyn gallu cynnal cyswllt parhaus cyhyd â bod angen ond hefyd er mwyn gallu tewi'r cyswllt os oes angen. Ni ddylai'r ymgeisydd allu clywed y trafodaethau preifat rhwng yr arholwyr. Gellid anfon gwahoddiadau calendr ar wahân, er mwyn gwneud yn sicr nad yw'r myfyriwr yn bresennol yn nhrefodaethau preifat y panel.

VII. Cyn belled â phosibl dylai cymorth technegol fod wrth law ar gyfer unrhyw drafferthion a allai godi, naill ai yn bersonol yn y lleoliad neu trwy gyswllt sefydledig dros y ffôn. Yn hyn o beth, rhaid rhoi ystyriaeth i'r gwahanol barthau amser a allai fod yn berthnasol ac i hyd posibl yr arholiad ei hun. Os rhoddir digon o rybudd, efallai y gall GG

drefnu i gael staff wrth law ar ddechrau arholiad neu i wirio ymlaen llaw bod y trefniadau'n gweithio.

VIII. Os yw'n debygol y ceir toriadau i'r cyflenwad trydan neu'r cysylltiadau electronig, rhaid ystyried a ddylid cynnal yr arholiad yn electronig. Yn unrhyw amgylchiadau, dylid paratoi cynllun wrth gefn a gwneud yn sicr bod pawb yn gwybod am hyn ymlaen llaw pe byddai'r cyswllt yn torri neu'n dirywio yn ei ansawdd, er mwyn gallu cwblhau'r arholiad cyn gynted â phosibl. Dylai ffôn, a rhifau ffôn pawb, fod wrth law ymhob lleoliad er mwyn i bawb allu ffonio'i gilydd pe byddai angen. Dylai'r Bwrdd Arholi fod yn gallu cadw mewn cyswllt â'r myfyriwr wrth i'r sefyllfa gael ei datrys ac i wneud yn sicr ei f/bod yn aros yn y lleoliad.

IX. Dylid cadw mewn cof y posibilrwydd y gallai'r ymgeisydd dorri'r cyswllt yn fwriadol a rhaid cael cynllun wrth gefn yn ei le ar gyfer hyn. Os sefydlir fod hyn wedi digwydd ac na ellir cwblhau'r arholiad oherwydd hynny, ni roddir cyfle arall i'r myfyriwr gael arholiad llafar ac fe fydd ef/hi yn methu.

X. Rhaid i Gadeiryddion yr arholiadau gadw mewn cof bod yr arholiad yn achlysur a all beri pryder ac y gall y canlyniad beri siom i fyfyrwyr. Byddai'n synhwyrol i ymgeiswyr sicrhau bod ganddynt rhywun yn lleol i'w cynorthwyo os ydynt yn cymryd rhan o bell.

Hydref 2021